Bwrdd Taliadau
**Ymgynghoriad**

# Ymgynghoriad
# Penderfyniad Drafft ar gyfer y Seithfed Senedd

## I ddod i rym o 7 Mai 2026

15 Rhagfyr 2025

Byddai'r Bwrdd yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn 17.00, 4 Chwefror 2026 fan bellaf. Mae'r broses ar gyfer cyflwyno ymateb a rhagor o wybodaeth am sut yr eir i'r afael â hyn i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon. Anfonwch unrhyw ymatebion i taliadau@senedd.cymru.

# Cynnwys


**Cyflwyniad y Cadeirydd ... 4**

**Y Penderfyniad Drafft a Symleiddio ... 6**

Diben ... 6

Cefndir ... 6

Cyllideb y Penderfyniad ... 7

Symleiddio ... 8

Newidiadau cyffredinol i'r Penderfyniad Drafft ... 9

Terminoleg a Theitl ... 9

Symleiddio a chael gwared ar ddyblygu ... 10

Eglurder Pwrpas ... 10

Atodiad sy'n cynnwys tabl o Costau o ran Cyflogau, Staffio a Busnes ... 10

Strwythur y ddogfen ymgynghori ... 11

**Pennod 1: Egwyddorion, rheolau cyffredinol, costau eithriadol a dehongliad ... 13**

Crynodeb o'r newidiadau drafftio ... 13

**Pennod 2: Tâl Aelodau a Deiliaid Swyddi Ychwanegol ... 15**

Crynodeb o'r newidiadau drafftio ... 15

Cynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynydd yn sgil chwyddiant blynyddol) ... 15

**Pennod 3: Cymorth Ychwanegol ... 17**

Crynodeb o'r newidiadau drafftio ... 17

Cynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynydd yn sgil chwyddiant blynyddol) ... 18

**Pennod 4: Llety Dros Nos ... 19**

Crynodeb o'r newidiadau drafftio ... 19

Cynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynydd yn sgil chwyddiant blynyddol) ... 20

**Pennod 5: Teithio ... 26**

Crynodeb o'r newidiadau drafftio ... 26

Cynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynydd yn sgil chwyddiant blynyddol) ... 27

**Pennod 6: Gwaith Etholaethol ... 28**

Crynodeb o'r newidiadau drafftio ... 28

Cynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynydd yn sgil chwyddiant blynyddol) ... 29

**Pennod 7: Staff Cymorth ... 31**

Crynodeb o'r newidiadau drafftio ... 31

Cynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynydd yn sgil chwyddiant blynyddol) ... 32

**Pennod 8: Cymorth i Grwpiau yn y Senedd ... 37**

Crynodeb o'r Newidiadau Drafftio ... 37

Newid polisi arfaethedig ... 38

**Pennod 9: Aelodau sy'n gadael eu swyddi ... 41**

Crynodeb o'r newidiadau drafftio ... 41

Cynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynydd yn sgil chwyddiant blynyddol) ... 41

**Atodiad A: Cwestiynau'r Ymgynghoriad ... 42**

**Atodiad B: Penderfyniad Drafft ar Gostau Aelodau o ran Cyflog, Staff a Busnes ar gyfer y Seithfed Senedd 2026-30 ... 45**

# Cyflwyniad y Cadeirydd

## Mae'r Bwrdd yn falch o gyflwyno'r ymgynghoriad ar y Penderfyniad drafft ar gyfer y Seithfed Senedd.

## Dyma benllanw rhaglen sylweddol o waith a wnaed drwy gydol chweched tymor y Senedd, a chafodd ei lunio, yn rhannol, drwy ymgysylltiad adeiladol a barn yr Aelodau, eu staff, a Chomisiwn y Senedd.

Ym mis Gorffennaf, gwnaeth y Bwrdd nifer o benderfyniadau allweddol ynghylch cyflog yr Aelodau, cyflog a graddfeydd staff, costau llety dros nos, cymorth i grwpiau yn y Senedd a chostau gwaith etholaethol ar gyfer tymor nesaf y Senedd. Gwnaed y penderfyniadau hyn, a nodir yn yr Atodiad i'r Penderfyniad ar gyfer 2025-26, ar ôl casglu tystiolaeth a gwaith ymgynghori helaeth; felly ni chânt eu hailystyried yn yr ymgynghoriad hwn.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar y Penderfyniad drafft diwygiedig a symlach ar gyfer y Seithfed Senedd yn ogystal â barn ar gyfres fach o newidiadau polisi ychwanegol arfaethedig, a'r cynnydd yn sgil chwyddiant blynyddol mewn cymorth ariannol ar gyfer 2026–27.

Nod y Bwrdd oedd creu dogfen gliriach a mwy hygyrch — un sy'n haws i'w darllen, ei dehongli a'i chymhwyso'n ymarferol i'r Aelodau, eu staff a Chomisiwn y Senedd. Wrth egluro a symleiddio'r Penderfyniad, mae'r Bwrdd hefyd yn anelu at wneud y trefniadau ar gyfer cyflog, staffio a chymorth busnes yr Aelodau yn fwy hygyrch a thryloyw i'r cyhoedd.

Mae'r Penderfyniad diwygiedig wedi'i gynllunio hefyd gyda hyblygrwydd mewn golwg, gan gydnabod y bydd y Seithfed Senedd yn gweithredu mewn tirwedd seneddol newydd, gyda mwy o Aelodau, trefniadau etholaethol gwahanol, ffyrdd newydd o weithio a newidiadau posibl i drefniadau busnes y Senedd. Ar yr un pryd, mae mesurau diogelwch priodol wedi'u hadolygu a'u cadw i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol gan ystyried dyletswyddau statudol y Bwrdd.

O ystyried y newidiadau hyn, mae'r Bwrdd yn bwriadu parhau i adolygu'r Penderfyniad newydd yn fanwl yn ystod camau cynnar y Seithfed Senedd. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag Aelodau a staff i ddeall sut mae'r trefniadau'n gweithio'n ymarferol ac a oes angen mireinio ymhellach.

Rydym yn croesawu eich barn ar y Penderfyniad drafft diwygiedig a'r cynigion ar gyfer seithfed tymor y Senedd.





**Dr Elizabeth Haywood**
**Cadeirydd,**
**Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

# Y Penderfyniad Drafft a Symleiddio

## Diben

**1.** Diben y ddogfen hon yw ymgynghori ar y Penderfyniad drafft ar gyfer y Seithfed Senedd.

**2.** Mae'r Penderfyniad drafft wedi'i symleiddio ac mae nifer o'r egwyddorion a'r rheolaethau sylfaenol yn y Penderfyniad wedi'u hadolygu. Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn ceisio barn ar nifer gyfyngedig o gynigion polisi a chynnydd ar sail chwyddiant i gyflogau a chyllidebau ar gyfer 2026-27.

**3.** Mae'r Bwrdd eisoes wedi gwneud y rhan fwyaf o'i benderfyniadau polisi ar gyfer y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd, gan gynnwys cyflog yr Aelodau, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 ac a gafodd ei ymgorffori fel Atodiad i'r Penderfyniad 2025-26. Mae rhagor o wybodaeth ar gael mewn dogfennau ymgynghori ac adroddiadau blaenorol ar wefan y Bwrdd.

**4.** Mae'r penderfyniadau hyn wedi'u hymgorffori yn y Penderfyniad drafft ac ni fydd y Bwrdd yn ailystyried y penderfyniadau hyn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

**5. Byddai'r Bwrdd yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn 17.00, 4 Chwefror 2026 fan bellaf.**

## Cefndir

**6.** Cytunodd y Bwrdd ar ei strategaeth yn 2022 gyda'r nod o gyflwyno Penderfyniad newydd ar gyfer y Seithfed Senedd. Mae'r Bwrdd wedi cynnal nifer o adolygiadau thematig a oedd yn ystyried costau busnes a chymorth i Aelodau, eu swyddfeydd a'u staff, gan sicrhau bod y Penderfyniad yn:

- sicrhau bod Aelodau o'r Senedd yn cael lefel o dâl sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, ac nad yw, am resymau ariannol, yn rhwystro pobl sydd â'r ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Senedd;
- sicrhau bod gan Aelodau o'r Senedd adnoddau digonol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau fel Aelodau;
- hyrwyddo uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

**7.** Mae rhagor o wybodaeth a chefndir am raglen strategol a gwaith y Bwrdd ar gael ar y wefan.

## Cyllideb y Penderfyniad

**8.** Gwnaeth Comisiwn y Senedd gynnwys y gyllideb amlinellol ar gyfer y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn ei Gyllideb Ddrafft 2026-27 a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025.[1].

*Dadansoddiad o gyflogau Aelodau a'r costau cysylltiedig*

| | 2025-26 (Atodol #1) £000 | 2026-27 £000 | 2027-28 £000 | 2028-29 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau Aelodau o'r Senedd ac argostau** | £6,841 | £7,284 | £7,503 | £7,728 |
| **Cyflogau Staff Cymorth yr Aelodau ac argostau** | £11,808 | £13,043 | £13,435 | £13,838 |
| **Costau busnes a swyddfa** | £2,674 | £3,432 | £3,535 | £3,624 |
| **Tanwariant disgwyliedig** | (£500) | (£2,527) | (£1,375) | (£1,250) |
| **Is-gyfanswm – 60 Aelod** | **£20,823** | **£21,232** | **£23,098** | **£23,939** |
| **Costau ychwanegol ar gyfer 36 o Aelodau newydd** | | | | |
| **Cyflogau Aelodau o'r Senedd ac argostau** | - | £4,371 | £4,502 | £4,637 |
| **Cyflogau Staff Cymorth yr Aelodau ac argostau** | - | £7,826 | £8,061 | £8,303 |
| **Costau busnes a swyddfa** | - | £2,059 | £2,121 | £2,174 |
| **Tanwariant disgwyliedig** | - | (£1,517) | (£825) | (£750) |
| **Is-gyfanswm – 36 o Aelodau ychwanegol** | - | **£12,739** | **£13,859** | **£14,364** |
| **Cyfanswm gan gynnwys 36 o Aelodau ychwanegol** | **£20,823** | **£33,972** | **£36,956** | **£38,303** |

**9.** Mae'r tabl nesaf [2] hefyd yn cynnwys gwariant sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad (gan gynnwys rhai elfennau o wariant Comisiwn y Senedd sy'n gysylltiedig ag etholiadau):

[1]Atodiad 2: Manylion y Gyllideb, Tabl 9, Tudalen 34, Comisiwn y Senedd Cyllideb Ddrafft 2026-27
[2]Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb, Tabl 2, Tudalen 30, Comisiwn y Senedd Cyllideb Ddrafft 2026-27

| Pennawd y Gyllideb | 2025-26 (Atodol #1) £000 | 2026-27 £000 | 2027-28 £000 | 2028-29 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol (Tabl 11)** | £609 | £607 | £620 | £641 |
| **Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad** | £1,000 | £4,500 | £0 | £0 |
| **Costau cyllid pensiwn Aelodau** | £1,000 | £400 | £400 | £400 |
| **Cyfanswm Cyllideb Comisiwn y Senedd** | £84,618 | £102,672 | £100,775 | £103,365 |

**10.** Roedd rhagdybiaethau cyllidebol Comisiwn y Senedd a nodir uchod yn seiliedig ar gynnydd o 5% yn ASHE Cymru a chyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr chwyddiannol o 3%. Ffigur ASHE Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd yw 4.5% ac nid yw cyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) Ionawr 2026 (y ffigur a fydd yn cael ei ddefnyddio i uwchraddio nifer o gyllidebau) yn hysbys eto. Felly, bydd y Bwrdd yn cyhoeddi costau diwygiedig ym mis Mawrth 2026 pan fydd y Penderfyniad terfynol ar gyfer y Seithfed Senedd yn cael ei gyhoeddi.

## Symleiddio

**11.** Mae symleiddio'r Penderfyniad wedi bod yn amcan allweddol i'r Bwrdd ac yn un o adolygiadau thematig craidd y Bwrdd yn ystod ei dymor diwethaf.[3].

**12.** Mae'r adolygiad Symleiddio wedi ceisio sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn gliriach ac yn haws i'w ddarllen a'i ddeall, gan anelu at gynorthwyo gyda gweinyddu a dehongli, ac mae wedi ceisio nodi:

- Rheolaethau a allai fod yn rhy gyfyngol neu'n ddiangen;
- Deunydd a fyddai'n elwa o ail-ddrafftio;
- Darpariaethau a allai fod yn ddiangen;
- Dyblygu a geiriau diangen;
- Geiriad sy'n disgrifio proses neu swyddogaeth a gyflawnir gan y Comisiwn, a;
- Geiriad sy'n fwy addas ar gyfer rhan arall o'r Penderfyniad er eglurder.

[3] Yn unol â Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 mae tymor Bwrdd wedi'i bennu am bum mlynedd. Dechreuodd tymor y Bwrdd presennol ym mis Medi 2025.

**13.** Mae egwyddorion a rheolaethau sylfaenol y Penderfyniad hefyd wedi cael eu hadolygu, ac, mewn rhai meysydd, mae'r Bwrdd wedi ceisio rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau benderfynu sut maent yn rheoli eu hadnoddau er mwyn diwallu eu hanghenion nhw neu anghenion eu hetholwyr neu eu ffyrdd dewisol o weithio, gan gynnal cydbwysedd rhwng atebolrwydd ac ymrwymiad i werth am arian i'r trethdalwr.

## Newidiadau cyffredinol i'r Penderfyniad Drafft

### Terminoleg a Theitl

**14.** Fel y nodwyd yn ymgynghoriadau'r Bwrdd yn yr hydref a'r gwanwyn, bydd llawer o'r derminoleg yn y Penderfyniad newydd yn cael ei symleiddio a'i gwneud yn fwy cyson drwy gydol y Penderfyniad.

**15.** Defnyddir amrywiaeth o dermau ar hyn o bryd, megis 'lwfansau', 'treuliau', 'gwariant' a 'chyllid'. Mae'r Bwrdd wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i gyfeirio yn lle hynny at 'cyllidebau' a 'chostau' yn y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.

**16.** Felly bydd teitl y Penderfyniad yn newid o 'Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau' i 'Penderfyniad ar Gostau Aelodau o ran Cyflog, Staff a Busnes'.

**17.** Barn y Bwrdd yw bod y teitl hwn yn egluro pwrpas y Penderfyniad yn gliriach, yn enwedig i'r cyhoedd, ac, yn hytrach na darparu ar gyfer 'lwfansau', bod Aelodau'n gallu hawlio 'costau' ar gyfer staffio a chymorth busnes angenrheidiol sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau.

**18.** Mae hyn hefyd yn gyson â'r hyn a ddilynir gan yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA).

**19.** Yn yr un modd, bydd enwau penodau neu gyllidebau penodol yn cael eu hailenwi, er enghraifft, bydd 'Llety Dros Nos' yn cael ei ddefnyddio yn lle 'Gwariant ar Lety Preswyl'.

**20.** Bydd y term 'cronfeydd canolog' hefyd yn cael ei ddisodli yn y Penderfyniad. Mae 'cronfeydd canolog' yn gyllideb gyffredinol a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd o dan y Penderfyniad i ddarparu ar gyfer costau ar gyfer materion fel teithio, costau gofal, cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr, rhai costau dileu swyddi neu gostau diogelwch. Mae cyllidebau eraill yn y Penderfyniad yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth yr Aelodau ac mae cyllidebau'n gyfyngedig a ni ddylid mynd y tu hwnt iddynt, megis llety dros nos, gwaith etholaethol neu gyllidebau staffio.

**21.** Nid yw'r term 'cronfeydd canolog' yn cael ei ddeall yn eang ac mae wedi achosi dryswch yn y gorffennol. Felly, bydd y Bwrdd yn egluro yn y Penderfyniad ble i hawlio costau o gyllidebau penodol sydd â swm uchaf y gellir ei hawlio (e.e. cyllideb staffio) a ble mae'r costau'n cael eu hawlio o dan y Penderfyniad ac nad ydynt yn ddarostyngedig i gyllideb na therfyn penodol.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

**1. A oes gennych chi unrhyw farn ar newid teitl y Penderfyniad?**

**2. A oes gennych chi unrhyw farn ar y dull newydd o ymdrin â therminoleg ac a ydych chi'n credu ei fod yn haws i'w ddeall?**

## Symleiddio a chael gwared ar ddyblygu

**22.** Ar hyn o bryd mae'r Penderfyniad yn cynnwys rhywfaint o ddyblygu ac ailadrodd a fydd yn cael eu dileu yn y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.

**23.** Ar hyn o bryd mae'r Penderfyniad yn cynnwys sawl cyfeiriad at brosesau neu bolisïau Comisiwn y Senedd. Fodd bynnag, mater i'r Comisiwn yw gweinyddu'r Penderfyniad ac mae y tu allan i gylch gwaith y Bwrdd. Bydd cyfeiriadau, er enghraifft, at broses apelio sy'n ymwneud â hawliadau yn cael eu tynnu o'r Penderfyniad. Yn yr un modd, bydd priodoli camau gweithredu neu gyfrifoldebau penodol i'r Comisiwn neu gyfeiriadau at y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau yn cael eu dileu.

**24.** Bydd y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn cynnwys lincs http i ddeddfwriaeth, dogfennau neu gyhoeddiadau perthnasol er hwylustod cyfeirio, a ddylai gynorthwyo Aelodau a staff cymorth i ddeall a chymhwyso'r Penderfyniad.

## Eglurder Pwrpas

**25.** Bydd pob pennod yn y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn nodi adran gyflwyniadol fer o'r enw 'Diben'. Mae hyn yn nodi bwriad a phwrpas polisi cyffredinol y darpariaethau sy'n ymwneud â thaliadau neu staffio neu gymorth busnes yr Aelodau yn y Bennod honno.

## Atodiad sy'n cynnwys tabl o Costau o ran Cyflogau, Staffio a Busnes

**26.** Mae manylion cyflogau Aelodau a staff a'r amrywiol ffigurau cyllidebol sydd ar gael i Aelodau wedi'u cynnwys drwy gydol corff y Penderfyniad ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae'r

dull hwn yn golygu nad yw'n syml nodi lefelau cyflog na chyllidebau penodol yn glir ac nid yw'n cynorthwyo tryloywder na defnyddioldeb.

**27.** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd wedi treialu dull lle mae'r holl ffigurau cyflog a chyllidebol wedi'u cynnwys mewn un tabl wedi'i gyhoeddi, yn debyg i'r Cynllun IPSA. Felly mae'r Bwrdd yn bwriadu cyflwyno hyn yn ffurfiol fel Atodiad i'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd gan ei fod yn darparu mwy o eglurder, rhwyddineb gweinyddol ac yn cynorthwyo tryloywder ac yn symleiddio'r broses adolygu flynyddol wrth uwchraddio cyflogau neu gyllidebau yn unol â mynegeio blynyddol y cytunwyd arno.

**28.** Er mwyn hwyluso eglurder i staff cymorth, bydd y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd hefyd yn cynnwys Atodiad yn crynhoi'r gwelliannau i hawliau statudol yn Nhelerau ac Amodau Staff Cymorth ac sydd wedi'u hymgorffori mewn contractau staff cymorth.

## Strwythur y ddogfen ymgynghori

**29.** Mae'r Penderfyniad Drafft ar gyfer y Seithfed Senedd, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad B, yn ddogfen newydd sbon. Mae wedi'i symleiddio a'i lliniaru, gyda llai o ddyblygu ac mae'r drafft yn 10,693 o eiriau o'i gymharu â 21,788 o eiriau yn y Penderfyniad presennol.

**30.** Mae fformat a thestun y Penderfyniad wedi aros yr un fath i raddau helaeth ers y Penderfyniad cyntaf yn 2011-12 ac felly mae testun a strwythur y Penderfyniad Drafft newydd hwn yn wahanol iawn i'r Penderfyniadau cyfredol neu flaenorol.

**31.** Felly, mae'r ddogfen ymgynghori hon wedi'i strwythuro i arwain darllenwyr drwy'r newidiadau drafftio a pholisi arfaethedig yn y Penderfyniad, gan grynhoi'r hyn sydd wedi newid a pham, yn ogystal â thynnu sylw at unrhyw gynigion polisi penodol pellach ar gyfer y Seithfed Senedd.

**32.** O ystyried y newidiadau drafftio sylweddol, er mwyn gwneud y ddogfen ymgynghori mor glir â phosibl, mae pob un o'r 9 Pennod newydd wedi'u crynhoi yn y ddogfen hon fel a ganlyn:

- Crynodeb o'r newidiadau drafftio
- Unrhyw Gynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynnydd yn sgil chwyddiant blynyddol arfaethedig)
- Bydd pob Pennod yn cynnwys cwestiynau ymgynghori sy'n berthnasol i'r cynigion drafftio neu bolisi sydd wedi'u cynnwys.
- Mae pob cwestiwn ymgynghori, gan gynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

**33.** Mae'r Bwrdd yn ymgynghori ar y cynigion a nodir isod, a byddem yn croesawu ymatebion erbyn **17.00, 4 Chwefror 2026 fan bellaf**. Mae'r broses ar gyfer cyflwyno ymateb a rhagor o wybodaeth am sut yr eir i'r afael â hyn i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon. Anfonwch unrhyw ymatebion i taliadau@senedd.cymru.

# Pennod 1: Egwyddorion, rheolau cyffredinol, costau eithriadol a dehongliad

## Crynodeb o’r newidiadau drafftio

**34.** Mae’r Bennod newydd hon yn uno Pennod 1 bresennol (Cyflwyniad ac Egwyddorion Cymorth Ariannol), Pennod 2 (Rheolau Cyflwyno Ceisiadau) ac adran Dehongli’r Penderfyniad.

**35.** Mae’r Bennod yn cadw’r un cynnwys yn fras â Phenodau 1 a 2 presennol, ond mae wedi'i symleiddio ac mae’n cynnwys y newidiadau hyn:

- Dileu rhai cyfeiriadau diangen at egwyddorion y Bwrdd ei hun, gan bwysleisio yn lle hynny'r egwyddorion y mae’n rhaid i Aelodau eu dilyn wrth wneud hawliadau.
- Cynnwys egwyddor newydd o ‘gynrychiolaeth gyfartal’, sy'n gyson â’r Rheolau a’r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau Cyhoeddus.
- Symleiddio ac ailenwi’r broses treuliau eithriadol.
- Dileu adrannau 1.3B Rôl Comisiwn y Senedd ac 1.4 y Broses Apelio presennol, gan mai materion i Gomisiwn y Senedd yw’r rhain ac nid materion i’r Bwrdd eu pennu.
- Dileu cyfeiriadau dyblyg at egwyddorion neu faterion sydd wedi'u cynnwys mewn mannau eraill yn y Penderfyniad, er enghraifft:
    - Bydd yr adran 2.1.2 bresennol sy'n ymwneud â chyllido grwpiau gwleidyddol am ran o'r flwyddyn yn cael ei symud i adran 1.6.
    - Mae adran 2.3.1 bresennol wedi'i dileu gan fod hon yn ailadrodd yr egwyddorion a nodwyd eisoes ym Mhennod 1.
    - Mae adrannau 2.3.5 a 2.36 presennol wedi’u dileu gan eu bod yn ymwneud â materion a nodir ar wahân ym Mhennod 5 Teithio
    - Mae adran 2.3.10 bresennol sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau at y Prif Weithredwr wedi'i dileu gan mai mater i Gomisiwn y Senedd ei benderfynu yw hwn.
- Mae’r adran Dehongli wedi’i diweddaru i adlewyrchu'r derminoleg newydd a ddefnyddir yn y Penderfyniad newydd ac unrhyw ddarpariaethau diwygiedig ac mae hefyd wedi'i symud a'i hymgorffori yng nghorff y Penderfyniad fel rhan o Bennod 1 i sicrhau ei bod yn cael ei darllen a’i chyfeirio ato wrth ddefnyddio'r Penderfyniad.

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**3. A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 1 yn darparu eglurder ynghylch y pwrpas, yr egwyddorion a'r rheolau cyffredinol sy'n berthnasol i Aelodau wrth wneud cais drwy'r Penderfyniad?**

**4. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fewnosod egwyddor sy'n ymwneud â 'chynrychioliaeth gyfartal'?**

**5. A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod?**

# Pennod 2: Tâl Aelodau a Deiliaid Swyddi Ychwanegol

## Crynodeb o’r newidiadau drafftio

**36.** Mae teitl y bennod wedi'i newid i adlewyrchu'r ffaith bod y bennod hefyd yn cynnwys tâl deiliaid swyddi ychwanegol yn ogystal â thâl Aelodau.

**37.** Roedd tâl Aelodau wedi’i gynnwys ym Mhennod 3 yn y Penderfyniad blaenorol, fodd bynnag, bydd yn Bennod 2 o'r Seithfed Senedd, gan fod Penodau 1 a 2 presennol wedi'u huno, fel y nodwyd uchod. Mae’r bennod yn cadw’r un bwriad polisi â Phennod 3 bresennol, fodd bynnag, mae wedi'i symleiddio’n helaeth i gael gwared ar eiriau ailadroddus neu ddiangen.

**38.** Mae newidiadau eraill yn cynnwys y canlynol:

- Newidiwyd ‘Arweinydd Grŵp Gwleidyddol nad yw yn y Llywodraeth’ i ‘Arweinydd Grŵp yn y Senedd’, er mwyn bod yn gyson â'r derminoleg gyffredinol sy'n ymwneud â ‘Grwpiau yn y Senedd’ a hefyd i ddarparu hyblygrwydd ar gyfer taliadau i Arweinydd Grŵp yn y Senedd mewn clymblaid, ond nad oedd yn Weinidog Cymru (bydd Aelodau sy'n dal mwy nag un swydd ychwanegol yn parhau i gael cyflog un deiliad swydd ychwanegol yn unig).
- Cadwwyd y cyfeiriad at ASHE Cymru fel y mynegai blynyddol ar gyfer cyflogau Aelodau, ond mae'r manylion a oedd wedi'u cynnwys yn flaenorol yn ymwneud ag ASHE Cymru wedi'u cynnwys yn yr adran Dehongli (gan ei fod yr un mor berthnasol i gyflogau staff)
- Mae gwybodaeth ychwanegol ynghylch hawl pensiwn yr Aelodau wedi'i chynnwys, gan fod hon yn elfen sylweddol o becyn cyflog cyffredinol Aelod a’r gost i’r trethdalwr. Bydd y Penderfyniad hefyd yn cynnwys linc http i'r Llawlyfrau Pensyniau i gyfeirio at ragor o wybodaeth i gynorthwyo dealltwriaeth a thryloywder.
- Bydd ffigurau cyflog yr Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol wedi'u cynnwys mewn tabl mewn Atodiad i'r Penderfyniad.

## Cynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynydd yn sgil chwyddiant blynyddol)

**39.** Gwnaeth y Bwrdd ei benderfyniad ar gyflogau Aelodau a deiliaid swyddogion ychwanegol ym mis Gorffennaf 2025 ac nid oes unrhyw gynigion pellach.

**40.** Yn unol â phenderfyniad y Bwrdd ym mis Gorffennaf, bydd cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn cynyddu yn ôl ffigur ASHE Cymru o 4.5%, o 1 Ebrill 2026. Mae'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys yn yr Atodiad i'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

**6. A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 2 yn darparu eglurder ynghylch cyflogau a hawliau pensiwn yr Aelodau?**

**7. A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod?**

# Pennod 3: Cymorth Ychwanegol

## Crynodeb o’r newidiadau drafftio

**41.** Roedd cymorth ychwanegol wedi’i gynnwys ym Mhennod 3A mewn Penderfyniadau blaenorol, cafodd ei fewnosod yn wreiddiol fel Pennod 3A newydd ar ddechrau’r Chweched Senedd, fodd bynnag, bydd yn Bennod 3 o'r Seithfed Senedd, gan fod Penodau 1 a 2 presennol wedi'u huno, fel y nodwyd uchod.

**42.** Mae’r bennod ddiwygiedig wedi’i drafftio i gyd-fynd yn agosach â'r ‘model cymdeithasol o anabledd’, dull a gadarnhawyd yn yr ymgynghoriad Rhan Dau yn y Gwanwyn.

**43.** Mae’r bennod ddiwygiedig hefyd yn croesgyfeirio at Bennod 4 Llety Dros Nos, er mwyn ei gwneud hi'n glir i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu y gallent hefyd allu hawlio costau llety ychwanegol ar gyfer dibynyddion sydd fel arfer yn byw gyda nhw yng Nghaerdydd o dan adran 4.3.2(h).

**44.** Mae’r bennod ddiwygiedig yn cadw'r un bwriad polisi â'r Penderfyniad presennol, fodd bynnag, mae wedi'i symleiddio, gan gynnwys:

- Dileu adran 3.A1.2 bresennol sy'n ddatganiad cyffredinol sy'n gofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer gwariant, gan fod hyn wedi'i nodi ar wahân yn yr adrannau perthnasol
- Mae'r adran 3.A1.4 bresennol ynghylch cyhoeddi hawliadau wedi'i dileu, gan fod materion cyhoeddi eisoes wedi'u cynnwys ym Mhennod 1.
- Mae adrannau 3.A1.3 a 3.A1.5 presennol wedi'u dileu gan fod y bennod wedi'i hailddrafftio yn nodi bod yr holl gostau sy'n gysylltiedig â hawliadau o dan y bennod hon yn cael eu talu drwy'r Penderfyniad (sef ‘cronfeydd canolog’ yn flaenorol)
- Mae’r adran 3A.3 bresennol ynghylch Cymorth i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau gofal eraill wedi'i diwygio i ymgorffori penderfyniad polisi'r Bwrdd ym mis Gorffennaf (fel y nodir isod).
- Mae’r adran 3A.4.6 bresennol ynghylch gwneud hawliadau am absenoldeb rhiant ‘lle bo hynny'n bosibl, cyn i'r Aelod gymryd ei gyfnod o absenoldeb rhiant’ wedi'i dileu, er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd gan y gallai fod angen i Aelod roi trefniadau o'r fath ar waith yn ystod absenoldeb rhiant (neu efallai na fyddai wedi gallu gwneud hynny pe bai Aelod yn sâl neu pe bai'r enedigaeth yn gynamserol, er enghraifft).
- Mae adran 3A.4.7 bresennol wedi'i dileu. Ar hyn o bryd mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau hysbysu’r Comisiwn o’u bwriad i gymryd absenoldeb rhiant cyn eu

dyddiad gadael, na ddylai fod yn hwyrach na 23 wythnos cyn y dyddiad y dylai'r babi gyrraedd; mae hyn wedi'i ddileu i roi mwy o hyblygrwydd i Aelodau a gall fod yn destun canllawiau'r Comisiwn.

- Mae'r adran 4.6 bresennol ynghylch Mesurau Diogelwch ym mhrif gartrefi Aelodau wedi'i symud o Bennod 4 Llety Dros Nos, gan fod Pennod 4 yn nodi costau hawliadwy sy'n ymwneud â llety (dros dro) dros nos nad yw'n brif gartref Aelod. Mae'r Bwrdd o'r farn, gan fod y rhain yn ymwneud â 'chostau ychwanegol', ei bod yn gliriach i'r Aelodau fod costau diogelwch wedi'u lleoli ym Mhennod 3 Costau Ychwanegol.

## Cynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynydd yn sgil chwyddiant blynyddol)

**Cynnig: Bydd y terfyn uchaf o £350 fesul dibynnydd ar gyfer costau gofal yn cael ei gynyddu yn ôl cyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr Ionawr 2026 o ddechrau'r Seithfed Senedd.**

**45.** Bydd gan Aelodau hawl i hawlio hyd at uchafswm o £350 y mis (ar gyfer hyd at dri dibynnydd) y mis am gostau gofal lle mae angen gofal o'r fath yn benodol i alluogi cyflawni dyletswyddau'r Aelod (ac y tu allan i oriau gwaith arferol).

**46.** Yn hanesyddol, mae'r gost uchaf hon y gellir ei hawlio wedi'i gweithredu'n flynyddol yn unol â chyfradd CPI.

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**8. A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 3 yn darparu eglurder ynghylch y cymorth ychwanegol sydd ar gael i Aelodau?**

**9. A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod?**

**10. A ydych chi'n cytuno â'r cynnydd arfaethedig yn y terfyn costau gofal y gellir eu hawlio yn unol â chyfradd CPI mis Ionawr?**

# Pennod 4: Llety Dros Nos

## Crynodeb o’r newidiadau drafftio

**47.** Bydd teitl y bennod yn newid i ‘Llety Dros Nos’ yn hytrach na ‘Gwariant ar Lety Preswyl’ presennol ac yn cynnwys adran Diben ‘cyflwyniadol’ newydd sy'n crynhoi bwriad polisi'r bennod.

**48.** Mae newidiadau sylweddol er mwyn adlewyrchu penderfyniadau polisi blaenorol y Bwrdd gan gynnwys:

- dileu'r adran 4.3 bresennol sy'n ymwneud â'r ‘Ardal Ryngol’ gan y bydd yr ardal hon yn cael ei huno â'r ‘Ardal Allanol’ o ddechrau'r Seithfed Senedd (yn unol â phenderfyniad y Bwrdd ym mis Gorffennaf, fel isod);
- dileu Opsiwn D presennol – trefniadau trosiannol sy'n ymwneud â thaliadau morgais, gan nad yw hyn yn berthnasol mwyach o ddiwedd y Chweched Senedd (yn unol â phenderfyniad y Bwrdd ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd)[4])

**49.** Mae’r bennod ddiwygiedig fel arall yn cadw'r un bwriad polisi â'r bennod bresennol, fodd bynnag, mae wedi'i symleiddio, gan gynnwys aildrefnu a chyfuno adrannau. Mae’r diwygiadau'n cynnwys:

- adran newydd 4.3 sy’n symleiddio adrannau cyfredol 4.4.2 i 4.4.5A,
- adran newydd 4.7 sy’n symleiddio’r adran 4.5 bresennol sy'n ymwneud â llety dros nos y tu allan i ardal Caerdydd, gyda chostau llety wedi'u cynnwys yn y tabl yn yr Atodiad i'r Penderfyniad. Mae gofynion yr achos busnes ar gyfer llety rhyngwladol wedi'u croesgyfeirio â'r rhai ar gyfer teithio rhyngwladol ym Mhennod 4 (felly dim ond un achos busnes sydd ei angen ar gyfer teithio a llety).
- adran newydd 4.9 lle mae adrannau 7.16 ac 8.5B presennol, sy'n ymwneud â llety staff cymorth a llety staff grŵp yn y drefn honno, yn cael eu symleiddio a'u cynnwys yn y bennod hon fel bod yr holl faterion sy'n ymwneud â llety dros nos mewn un lle. Mae adran newydd 4.10 yn egluro y byddai costau llety o'r fath, fel nawr, yn cael eu talu o'r gyllideb Staffio neu'r gyllideb Cymorth Grŵp.

[4] Gellir gweld penderfyniad y Bwrdd ym mharagraff 5.77 o'r Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd.- **adolygiad-or-penderfyniad-ar-gyfer-y-chweched-senedd-adroddiad-cy.pdf**

- Mae adran 4.1.3 bresennol ar 'achosion ar y ffin' ynghylch lleoliad prif gartrefi'r Aelodau wedi'i symud i adran benodol newydd 4.6 'Prif gartref mewn achosion ar y ffin'. Mae'r gofyniad i wneud cais mewn amgylchiadau o'r fath yn parhau; fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei ystyried gan y Bwrdd yn hytrach na Chomisiwn y Senedd fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
- Mae'r adran 4.2.A2 bresennol (lle gall Aelod o'r Ardal Fewnol sydd wedi hawlio'r swm uchaf o lety wneud cais i Gomisiwn y Senedd 'o dan amgylchiadau eithriadol am ad-daliad ar gyfer unrhyw lety ychwanegol') wedi'i dileu. Mae'r ddarpariaeth hon yn ddiangen gan y gellir gwneud hawliadau o'r fath o dan y darpariaethau 'costau eithriadol' cyffredinol a nodir yn adran newydd 1.7.

## Cynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynydd yn sgil chwyddiant blynyddol)

### Cynnig: Dileu Opsiwn B – costau cartref yn ardal Caerdydd a ddarperir ar draul yr Aelod ei hun

**50.** Ar hyn o bryd mae'r Penderfyniad yn darparu i Aelodau sydd â phrif breswylfa yn yr Ardal Allanol hawlio llety dros nos yng Nghaerdydd wrth gyflawni dyletswyddau'r Senedd, a all fod naill ai'n llety rhent (a ddisgrifir fel Opsiwn A), gwesty neu lety â gwasanaeth (a ddisgrifir fel Opsiwn C), sydd hyd at y swm uchaf a bennir ar gyfer costau rhentu yn Opsiwn A.

**51.** Mae'r Penderfyniad hefyd yn cynnwys Opsiwn B, lle gellir hawlio costau sy'n gysylltiedig â threth y cyngor, biliau cyfleustodau, band eang, trwydded deledu ac yswiriant ar gyfer cartref a ddarperir ar draul yr Aelod ei hun. Rhaid i'r cartref fod yn ardal Caerdydd, ni ddylai fod yn brif gartref yr Aelod a ni ddylai gael ei is-osod.

**52.** Mae'r Bwrdd yn cynnig dileu Opsiwn B o ddechrau'r Seithfed Senedd. Mae'r cynnig hwn yn gyson â **phenderfyniad blaenorol y Bwrdd** (yn 2019) i gael gwared ar y trefniadau trosiannol oedd ar waith i Aelodau hawlio taliadau llog morgais a chyllid ar gyfer atgyweiriadau hanfodol ar eiddo y maent yn berchen arno, erbyn diwedd chweched tymor y Senedd.

**53.** Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth ofalus i a ddylai Opsiwn B barhau yn y Seithfed Senedd ac mae'r Penderfyniad yn cynnwys egwyddor sy'n honni na ddylai fod 'unrhyw fudd personol' i unrhyw hawliadau Penderfyniad, yn benodol na ddylai Aelodau wneud hawliadau sy'n arwain at y canfyddiad o fudd ariannol personol amhriodol, uniongyrchol neu anuniongyrchol i Aelod neu unrhyw berson arall.

**54.** O dan ddarpariaethau Opsiwn B presennol, byddai person a oedd yn berchen ar neu’n cyfrannu at gostau rhentu/morgais cartref yn ardal Caerdydd wedi gallu hawlio costau cartref y byddent fel arfer yn eu hysgwyddo ac yn talu amdanynt yn bersonol mewn perthynas â’u heiddo. Ar ben hynny, pe bai Aelod yn byw mewn cartref yn ardal Caerdydd ac yn rhannu costau rhent neu forgais gyda pherson arall (nid aelod o'r teulu sy'n ddibynnol arno), byddai'r person arall hwnnw'n elwa a byddai ganddo gostau byw â chymhorthdal yn ei eiddo, a allai hefyd fod yn brif breswylfa iddo.

**55.** Os bydd y Bwrdd yn dileu Opsiwn B, efallai y bydd Aelodau sydd ag eiddo yng Nghaerdydd am ddefnyddio'r eiddo hwnnw ar eu traul eu hunain. Fel arall, byddai Aelod cymwys yn gallu rhentu eiddo a hawlio am gostau llety (o dan Opsiwn A) neu C (llety mewn gwesty), os oedd yr Aelod o'r farn bod hyn yn angenrheidiol ac yn rhesymol.

**56.** Mae’r Bwrdd yn cydnabod y gallai cyfanswm y costau a hawlir gan yr Aelodau fod yn llai o dan Opsiwn B o'i gymharu ag Opsiwn A, ac felly mae'n rhaid iddo ystyried y cydbwysedd rhwng gwerth am arian i'r trethdalwr, rhesymoldeb a lleihau unrhyw 'fudd personol' i'r Aelodau a'r canfyddiadau cysylltiedig.

**57.** Mae'r Bwrdd wedi ystyried goblygiadau cydraddoldeb y cynnig hwn. Er y gallai'r cynnig hwn gael effaith ar bobl â'r nodwedd warchodedig o briodas a phartneriaeth sifil, mae’r Penderfyniad yn darparu ar gyfer costau a chymorth amgen (gan gynnwys costau eiddo rhent neu lety mewn gwesty). Mae’r Bwrdd hefyd yn ceisio sicrhau egwyddorion y Penderfyniad ynghylch dim budd personol ac osgoi effaith negyddol ar enw da’r Senedd na’i Haelodau.

**Cynnig: Bydd y swm uchaf y gellir ei hawlio am lety dros nos yn y Deyrnas Unedig (Caerdydd a mannau eraill, adran newydd 4.7) yn cael ei gynyddu gan ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer Ionawr 2025 a bydd y swm uchaf dros nos yn Llundain yn cael ei gynyddu i £230.**

**58.** Gall Aelodau hawlio cost gwesty yn ardal Caerdydd, rhywle arall yn y DU neu yn Llundain os oes angen aros dros nos mewn cysylltiad â chyflawni eu dyletswyddau.

**59.** Cymharodd y Bwrdd gyfraddau llety dros nos o'i gymharu â chyrff perthnasol eraill ac adolygodd hefyd argaeledd llety mewn gwestai yn ardal Bae Caerdydd. Cadarnhaodd y dadansoddiad hwn fod amrywiaeth o opsiynau gwestai ar gael o hyd o fewn y cyfraddau nosweithiol uchaf, hyd yn oed wrth archebu llety ar y diwrnod. Mae'r Penderfyniad hefyd yn caniatáu i'r gyfradd uchaf gael ei chymhwyso i'r gost gyfartalog y noson, lle mae nosweithiau olynol yn cael eu harchebu mewn un trafodiad. Fodd bynnag, dangosodd dadansoddiad fod y gwestai sydd ar gael o fewn y gyfradd uchaf gyfredol yn Llundain yn gyfyngedig.

**60.** Felly mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r gyfradd uchaf dros nos yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mis Ionawr a chynyddu cyfradd dros nos Llundain i gyd-fynd â'r cyfraddau a osodwyd ar gyfer Aelodau Seneddol gan IPSA.

**Cynnig: Bydd cyllideb llety dros nos Aelodau'r Ardal Fewnol (adran newydd 4.1.1) yn cyfateb i 6 noson ar y gyfradd llety dros nos uchaf wedi'i huwchraddio o ddechrau'r Seithfed Senedd.**

**61.** Mae'r Bwrdd wedi treialu dull newydd yn ystod 2025-26, lle gall Aelodau sydd â phrif breswylfa yn yr Ardal Fewnol hawlio am lety dros nos yn ardal Caerdydd hyd at uchafswm o £702 y flwyddyn. Roedd y swm hwn yn seiliedig ar lety dros nos cyfatebol o 6 noson ar y gyfradd uchaf mewn gwesty, er bod y Bwrdd wedi nodi y gellid rheoli llety dros nosweithiau pellach pe bai Aelod yn sicrhau cyfraddau is.

**62.** Mae'r Bwrdd wedi ystyried y defnydd yn ystod saith mis cyntaf y cynllun peilot, gan nodi:

- Nid yw 24 o Aelodau (83% o'r rhai cymwys) wedi gwneud hawliad (hyd yma)
- Mae 3 Aelod wedi hawlio am un arhosiad dros nos (cost gyfartalog o £74)
- Mae 1 Aelod wedi hawlio llety dros nos am 2 noson (cost gyfartalog o £98)
- Mae 1 Aelod wedi hawlio llety dros nos am 4 noson (cost gyfartalog o £78.50 a chyfanswm o £314 neu 48% o'r gyllideb gyffredinol sydd ar gael).

**63.** Mae pum mis o'r cynllun peilot ar ôl, sy'n cynnwys misoedd y gaeaf a allai arwain at fwy o alw oherwydd tywydd garw (gall misoedd olaf y cynllun peilot hefyd gael eu heffeithio gan y gallai gofynion busnes ac ymrwymiadau'r Senedd a'r Aelodau fod yn wahanol yn ystod misoedd olaf tymor y Senedd).

**64.** Yn seiliedig ar ddefnydd yr Aelodau hyd yma, mae'r Bwrdd o'r farn bod y ddarpariaeth gyllidebol yn ddigonol ac yn nodi bod y Penderfyniad yn darparu ar gyfer llety ychwanegol o dan 'gostau eithriadol' i'w hawlio o dan adran 1.7 newydd.

**65.** Felly mae'r Bwrdd yn cynnig cadw at y dull presennol, sy'n cyfateb i 6 noson ar yr uchafswm cyfradd llety dros nos uwch o ddechrau'r Seithfed Senedd. Bydd y Bwrdd yn adolygu digonolrwydd y gyllideb hon yn nhymor newydd y Senedd tra'n disgwyl canlyniad unrhyw newidiadau i amserlen busnes y Senedd.

**Cynnig: Bydd cyfraddau cynhaliaeth yn cynyddu (adran newydd 4.8.1) i £30 am gyfnod o 24 awr o ddechrau'r Seithfed Senedd.**

**66.** Ar hyn o bryd mae’r Penderfyniad yn darparu ar gyfer pryd gyda'r nos i Aelod hyd at uchafswm o £20 y noson (ac efallai na fydd y swm a hawlir yn cynnwys cost unrhyw ddiodydd alcoholaidd). Nid yw'r gyfradd hon wedi cael ei hadolygu ers 2011. Gall Aelodau hefyd hawlio am frecwast am arhosiad dros nos, lle nad yw brecwast wedi cael ei gynnwys yn y gyfradd dros nos.

**67.** Mae'r Bwrdd wedi cymharu cyfraddau cynhaliaeth â sefydliadau perthnasol eraill:

- Mae cynghorwyr Cymru yn gallu hawlio lwfans dyddiol o £28 gan ddangos derbynebau.
- Gall Aelodau Seneddol hawlio am gost prynu bwyd a diodydd di-alcohol hyd at £25 y noson, ond gall yr hawliadau gwmpasu pryniannau a wneir yn ystod y dydd.
- Mae cyfraddau uwch dros nos Aelodau o Senedd yr Alban o £233 a £271 (Llundain) yn cynnwys cinio, gwely a brecwast yn benodol.

**68.** Mae’r holl gyfraddau cynhaliaeth uchod yn uwch na'r rhai a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer Aelodau o'r Senedd ac mae'n bosibl y bydd y cyfraddau ar gyfer Aelodau Seneddol ac Aelodau o Senedd yr Alban yn destun cynnydd ar gyfer 2026-27.

**69.** Felly, mae'r Bwrdd yn cynnig newid y ddarpariaeth o 'uchafswm o £20 y noson' i 'uchafswm o £30 fesul cyfnod 24 awr' er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i Aelodau a'u staff wneud hawliadau rhesymol am gostau bwyd a diod yr eir iddynt tra byddant oddi cartref neu i ffwrdd o’u man gwaith arferol wrth gyflawni dyletswyddau Aelod.

**70.** Wrth wneud y cynnig hwn, mae'r Bwrdd wedi ystyried y dull mwy hyblyg a nodir gan gyrff eraill uchod, ond byddai'n croesawu cael barn ynghylch a ddylid pennu terfynau penodol ar gyfer prydau bwyd neu feini prawf ynghylch pellter neu amser rhesymol oddi cartref neu i ffwrdd o’r man gwaith arferol yn y Penderfyniad, fel sy'n digwydd yn achos polisïau cynhaliaeth llawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

**Cynnig: Bydd y swm blynyddol y gellir ei hawlio am lety dros dro yng Nghaerdydd gan Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr Ardal Allanol yn cynyddu 3.4% o ddechrau’r Seithfed Senedd (wedi'i dalgrynnu i'r £5 agosaf y mis).**

**71.** Gall Aelodau y mae eu prif breswylfa yn yr Ardal Allanol hawlio treuliau mewn perthynas ag eiddo yn ardal Caerdydd, hyd at uchafswm o £12,900 y flwyddyn neu £1,075 y mis.

**72.** Gall Aelodau hefyd hawlio am dreuliau fel y dreth gyngor (hyd at Fand F y Dreth Gyngor), biliau cyfleustodau, trwydded deledu, darpariaeth band eang ac ati, yn ogystal â rhent (gan gynnwys unrhyw dâl rheoli neu rent tir). Nid oes terfyn uchaf ar y costau ychwanegol hyn.

**73.** Wrth adolygu'r ddarpariaeth hon fel rhan o'r adolygiad blynyddol ar gyfer 2025-26, cytunodd y Bwrdd i gynyddu yn unol â Mynegai Prisiau Rhentu Tai Preifat y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Caerdydd.

**74.** Mae'r Bwrdd wedi ystyried dadansoddiad o'r farchnad rhentu leol, gan gynnwys costau rhentu misol ar gyfer fflatiau un a dwy ystafell wely yn ardal Bae Caerdydd, yn ogystal â chostau rhentu'r Aelodau presennol. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos bod y cynnydd rhent cyfartalog dros y 12 mis diwethaf yn 3.4%; er bod cynnydd rhent yn arafu, maent yn parhau i fod yn uwch yn ardal Caerdydd o'i gymharu â mannau eraill yng Nghymru a'r DU.

**75.** Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r swm blynyddol y gellir ei hawlio am lety dros nos gan Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr Ardal Allanol (yn adrannau newydd 4.3.2 (a) a 4.5.1) 3.4% i £13,320 y flwyddyn yn seiliedig ar uchafswm o £1,110 y mis yn 2026-27.

**Cynnig: Bydd y costau llety dros nos ychwanegol sydd ar gael i Aelodau yn yr Ardal Allanol sydd â chyfrifoldebau gofalu yn aros yr un fath.**

**76.** Mae'r Bwrdd yn darparu ar gyfer costau llety dros nos ychwanegol i Aelodau yn yr Ardal Allanol sydd â chyfrifoldebau gofalu am ddibynyddion sydd fel arfer yn byw gyda nhw yng Nghaerdydd.

**77.** Penderfynodd y Bwrdd ym mis Gorffennaf, o ddechrau'r Seithfed Senedd, y byddai hyn hyd at £3,870 y flwyddyn ar gyfer y dibynnydd cyntaf a £1,290 y flwyddyn ar gyfer pob dibynnydd ychwanegol, hyd at uchafswm o ddau. Roedd hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad a ddangosodd fod eiddo 2 ystafell wely 30% yn ddrytach nag eiddo 1 ystafell wely a bod ystafelloedd gwely ychwanegol tua 10% yn ychwanegol.

**78.** Mae'r data diweddaraf yn dangos bod eiddo cyffredin â dwy ystafell wely yng Nghaerdydd tua 27.3% yn ddrytach nag eiddo cyffredin ag un ystafell wely. Felly, bydd y costau llety ychwanegol ar gyfer y Seithfed Senedd a osodwyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf yn parhau i fod yn briodol a'n parhau i fod £3,870 y flwyddyn ar gyfer y dibynnydd cyntaf a hyd at £1,290 y flwyddyn fesul dibynnydd ychwanegol (hyd at uchafswm o 2 ddibynnydd) ar gyfer 2026-27.

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**11. A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 4 yn darparu eglurder ynghylch y costau llety dros nos sydd ar gael i Aelodau?**

**12. A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod?**

**13. A ydych yn cytuno â’r cynnig i ddileu Opsiwn B (treuliau mewn cysylltiad â chartref yn ardal Caerdydd a ddarperir ar draul yr Aelod ei hun)?**

**14. A ydych chi'n cytuno â'r codiadau blynyddol arfaethedig ar gyfer costau llety dros nos a nodir uchod?**

**15. A oes gennych chi unrhyw farn ar y newidiadau arfaethedig i gostau cynhaliaeth a nodir uchod ac a oes angen eglurhad neu feini prawf ychwanegol ynghylch hawliadau rhesymol?**

# Pennod 5: Teithio

## Crynodeb o’r newidiadau drafftio

**79.** Mae teitl y bennod wedi'i newid i ‘Teithio’ o ‘Siwrneiau’r Aelodau’, gan y bydd yn cynnwys teithio sy'n ymwneud â staff cymorth a staff grŵp.

**80.** Mae’r bennod ddiwygiedig yn cynnwys adran Diben ‘cyflwyniadol’ newydd sy'n crynhoi bwriad y polisi, sy'n parhau fel y mae yn y bennod bresennol. Nid oes unrhyw newidiadau polisi sylweddol, ond mae'r bennod wedi'i symleiddio, gyda gwahanol adrannau wedi'u crynhoi, eu huno neu eu dileu, gan gynnwys:

- Dileu egwyddorion sy'n ymwneud â theithio yn adrannau 5.1, 5.2, 5.3 a 5.4 presennol gan fod y rhain yn dyblygu'r egwyddorion cyffredinol ym Mhennod 1.
- Adran 5.1 newydd sy'n uno'r ddau gategori presennol o deithio domestig: teithio o fewn Cymru (h.y. ‘teithio arferol’) a theithio o fewn gweddill y DU (h.y. ‘teithio estynedig’) gan fod yr un rheolau’n berthnasol i'r ddau.
- Mae’r adran 5.15.6 bresennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gyflwyno adroddiad ar ôl dychwelyd o deithio rhyngwladol wedi'i dileu, yn unol â phenderfyniad y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025.
- Mae’r adran 5.17 bresennol sy'n ymwneud ag ‘adalw’r Senedd neu bwyllgor’ wedi'i symleiddio yn yr adran 5.3 newydd a'i hailenwi i adlewyrchu bod hyn yn cwmpasu teithio oherwydd cyfarfodydd llawn heb eu trefnu a chyfarfodydd pwyllgor heb eu trefnu. Os bydd Aelod ar wyliau yn y DU, mae teithio i fynd i gyfarfod wedi'i gynnwys o dan adran newydd 5.1 ac os yw'r Aelod dramor, mae teithio wedi'i gynnwys o dan adrannau newydd 5.3.1(a) a (b).
- Mae adran 5.18.1 bresennol wedi'i hailddrafftio a'i hymgorffori yn adran 5.4.1 newydd, gan ganiatáu 12 taith fesul ‘aelod o’r teulu’ y flwyddyn yn unol â phenderfyniad y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025. Bydd ‘partner Aelod’ yn derm wedi’i ddiffinio yn yr adran Dehongli (gan adlewyrchu’r diffiniad yn Rheolau Sefydlog y Senedd).
- Mae adrannau 5.20 a 5.23 presennol sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol i bartner neu blentyn Aelod neu i staff wedi'u dileu, gan eu bod yn ymwneud â phrosesau’r Comisiwn.
- Mae’r terfyn ar nifer y teithiau ar gyfer staff sy’n seiliedig ar yr etholaeth i/o Gaerdydd wedi'i ddileu (adran 5.21 bresennol) yn unol â phenderfyniad y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025.

- Mae adrannau 7.15 ac 8.5B presennol (teithio gan aelodau o staff a chostau teithio a llety staff) wedi'u symud i'r bennod hon (adrannau 5.6 2 a 5.7 newydd) gan y byddai hawliadau am deithio o'r fath yn adlewyrchu hawliadau teithio gan Aelodau, er y byddai unrhyw hawliadau am deithio staff yn cael eu gwneud yn erbyn cyllideb y staffio neu gyllideb Cymorth Grŵp yn y Senedd.

## Cynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynydd yn sgil chwyddiant blynyddol)

**81.** Nid oes unrhyw newidiadau polisi arfaethedig ar gyfer y bennod teithio ar gyfer 2026-27.

**82.** Nid oes unrhyw gynnydd blynyddol arfaethedig i gyllidebau gan fod pob hawliad yn seiliedig ar gostau gwirioneddol yn seiliedig ar gyfraddau CThEF (fel y nodir yn Rhan 5 o'r Tabl yn yr Atodiad i'r Penderfyniad).

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**16. A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 5 yn darparu eglurder ynghylch teithio Aelodau a staff?**

**17. A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod?**

# Pennod 6: Gwaith Etholaethol

## Crynodeb o’r newidiadau drafftio

**83.** Mae teitl y bennod wedi'i newid i ‘Gwaith Etholaethol’ o'r teitl arfaethedig ‘Swyddfa Etholaethol ac Ymgysylltu’ fel y nodwyd yn ymgynghoriad Rhan Un yn hydref 2024; mae'r bennod hefyd yn cynnwys cyfeiriadau ehangach at ‘gwaith etholaethol’.

**84.** Mae’r Bwrdd wedi dewis y term hwn gan ei fod yn rhoi disgrifiad gwell o bwrpas y gyllideb a ddarperir, sy’n ymwneud bron yn gyfan gwbl â gwaith a wneir yn yr etholaeth, gan gynnwys ymchwil a chostau eraill. Efallai bod yr Aelodau wedi camddehongli'r cynnig gwreiddiol bod disgwyl i Aelodau gael ‘swyddfa’, ond barn y Bwrdd yw mai mater i'r Aelodau yw hyn yn dibynnu ar sut maen nhw'n dymuno gweithio yn eu hetholaeth.

**85.** Mae’r bennod ddiwygiedig yn cynnwys adran Diben ‘cyflwyniadol’ newydd sy'n crynhoi bwriad y polisi. Nid oes unrhyw newidiadau polisi sylweddol (ac eithrio'r rhai a nodir yn benodol isod a oedd yn destun ymgynghoriadau blaenorol a phenderfyniadau'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025). Mae'r bennod wedi'i symleiddio, gyda gwahanol adrannau wedi'u cyfuno neu eu tynnu, gan gynnwys:

- Dileu’r ‘egwyddorion Swyddfeydd’ a nodir ar hyn o bryd yn adran 6A.1 o'r Penderfyniad, yn unol ag ymgynghoriad Rhan Un ym mis Awst 2024, gan fod y rhain yn efelychu'r egwyddorion cyffredinol ym Mhennod 1 neu ofynion statudol perthnasol yn fras, er enghraifft yn ymwneud â hygyrchedd, ac mae rhai ohonynt yn llai perthnasol o ystyried y cynnydd mewn gweithio hybrid.
- Fodd bynnag, mae egwyddor yr adeilad swyddfa yn yr adran 6A1.2 gyfredol wedi'i chadw yn yr adran newydd 6.3.1 ac mae'n parhau â'r gofyniad i Aelodau sicrhau bod adeiladau etholaethol yn addas ar gyfer eu hanghenion fel Aelod.
- Mae cyfeiriadau troednodyn newydd at y Rheolau perthnasol ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd, yn benodol Rheolau 7 ac 8, yn atgoffa'r Aelodau o'r rheolau ar drin etholwyr yn gyfartal a chyfathrebu ac ymgysylltu ag etholwyr.
- Adran 6.4 newydd ar Gostau a Rennir, er mwyn ei gwneud yn gliriach i Aelodau y gallent fod eisiau rhannu costau ar faterion ac egluro sut mae costau'n cael eu rhannu.
- Y terfyn trosglwyddo cyllideb uwch (‘trosglwyddo arian’ yn flaenorol) o 50% i'r gyllideb Staffio (25% ar hyn o bryd).

## Cynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynydd yn sgil chwyddiant blynyddol)

**Cynnig: Bydd y gyllideb Gwaith Etholaethol gwerth £27,430 yn cael ei chynyddu yn ôl cyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr Ionawr 2026.**

**86.** Mae'r Bwrdd wedi asesu digonolrwydd cyllideb Gwaith yr Etholaeth (a elwir ar hyn o bryd yn Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr) yn flaenorol yn seiliedig ar batrymau gwariant yr Aelodau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi dod i'r casgliad fel rhan o'r ymgynghoriad Rhan Un yn hydref 2024 bod y gyllideb yn ddigonol.

**87.** Felly mae'r Bwrdd yn cynnig cynyddu'r gyllideb, fel mewn adolygiadau blynyddol blaenorol, yn unol â chyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr Ionawr 2026.

**Cynnig: Bydd cyllideb Cychwyn Swyddfa (£6,500) a chyllideb Adnewyddu Swyddfa (£2,500) yn cael eu cynyddu yn unol â chyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr Ionawr 2026.**

**88.** Mae'r Penderfyniad yn darparu cyllidebau i Aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd sefydlu swyddfeydd newydd neu adnewyddu neu ailwampio swyddfeydd presennol yn dilyn yr etholiad. Efallai y bydd angen i sawl Aelod sy'n dychwelyd adnewyddu eu swyddfa (megis gosod arwyddion newydd) neu symud swyddfeydd o ystyried y newidiadau i etholaethau'r Senedd.

**Cynnig: Bydd y ddarpariaeth i Aelodau hawlio costau band eang yn eu prif gartref yn cael ei dileu o ddechrau'r Seithfed Senedd.**

**89.** Mae Adran 6.6A.1 o'r Penderfyniad ar hyn o bryd yn darparu 'dim ond i hawliadau am gostau ychwanegol y tu hwnt i'r gost arferol o fyw yn y cartref' y gall Aelodau hawlio ad-daliad am gostau band eang yn eu prif gartref.

**90.** Mewnosodwyd y ddarpariaeth hon ym Mhenderfyniad 2022-23 yn dilyn y sylwadau gan Aelodau o ganlyniad i gynnydd mewn gweithio hybrid yn ystod ac ar ôl pandemig COVID.

**91.** Nid oes unrhyw Aelodau ar hyn o bryd yn hawlio o dan adran 6.6A.1.

**92.** Barn y Bwrdd yw nad yw'r ddarpariaeth hon yn parhau i fod yn briodol o ystyried y datblygiadau a'r defnydd eang o fand eang cyflym gan y rhan fwyaf o gartrefi, sy'n caniatáu i'r boblogaeth weithio gyffredinol gynnal arferion gweithio o bell arferol o gartref, yn enwedig mynediad o bell i systemau TGCh a mynychu cyfarfodydd o bell trwy Teams neu Zoom. Mae'r cynnig hwn yn gyson â phenderfyniad blaenorol y Bwrdd i ddileu'r 'Lwfans Gweithio Gartref' ar gyfer staff cymorth y Seithfed Senedd.

### Cwestiynau’r Ymgynghoriad

**18. A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 6 yn darparu eglurder ynghylch gwneud hawliadau am Waith Etholaethol?**

**19. A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod?**

**20. A ydych chi'n cytuno â'r codiadau blynyddol arfaethedig ar gyfer Gwaith Etholaethol a chostau cychwyn ac Adnewyddu Swyddfeydd yn unol â chyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr Ionawr 2026?**

**21. A ydych chi'n cytuno â’r cynnig i ddileu’r ddarpariaeth i Aelodau hawlio costau band eang ychwanegol yn eu prif gartref?**

# Pennod 7: Staff Cymorth

## Crynodeb o'r newidiadau drafftio

**93.** Mae teitl y bennod wedi'i newid i 'Staff Cymorth' o'r teitl 'Cymorth staffio ar gyfer Aelodau' presennol ac mae'r bennod ddiwygiedig yn cynnwys adran Diben 'gyflwyniadol' newydd sy'n crynhoi bwriad y polisi.

**94.** Mae'r Bennod wedi'i hailstrwythuro a'i symleiddio i roi mwy o eglurder. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys:

- Crynhoi a chyfuno sawl 'rheol' bresennol sy'n ymwneud â chyflogi staff (ac sy'n helpu i ddarparu cysondeb a diogelwch i staff) i adran newydd 7.1 ar ddechrau'r bennod e.e. darparu contractau, glynu wrth y fframwaith dosbarthu swyddi, gwahardd cyflogi aelodau o'r teulu, recriwtio a thrin interniaid yn deg ac yn agored.
- Mae cynnydd drwy'r pwyntiau cyflog (adran 7.3 newydd) yn cynnwys cyfeiriad at 'gymhwysedd' boddhaol yn ogystal â 'pherfformiad', fel sy'n wir nawr, gan fod hyn yn cyd-fynd â phwrpas y fframwaith Dosbarthu Swyddi newydd.
- Dileu dyblygu sy'n ymwneud â theithio staff a llety dros nos, gan gynnwys cyfeiriad yn lle hynny (yn yr adrannau 7.9, 7.10 a 7.11 newydd) at y darpariaethau teithio a llety dros nos cyffredinol ym Mhenodau 4 a 5.
- Mae adran 7.4 Cyfuniadau Staff presennol a chyfeiriadau at 'Balans sy'n Weddill' wedi'u dileu, gan mai sylwebaeth ddisgrifiadol ydyw yn fras ac mae gan yr Aelodau ddisgresiwn a hyblygrwydd ynghylch defnyddio eu Cyllideb Staffio at ddibenion y Bennod.
- Mae adran 7.12 'Lwfans Staffio Dros Dro' wedi'i hailenwi'n 'Cyflenwi yn ystod absenoldebau staff cymorth' (adran 7.8 newydd) i ddiffinio pwrpas y gyllideb hon yn gliriach (sy'n parhau i fod yn ychwanegol at gyllideb staffio Aelodau)
- Mae adran 7.5 'Cymorth Dros Dro' wedi'i dileu gan ei bod yn ddiangen gan ei bod yn ymwneud â chyflogi staff ar gontractau tymor penodol, sy'n dod o dan adran newydd 7.1. Mae'r cyfeiriad at y Polisi Lleoliadau Di-dâl wedi'i ddileu gan nad yw wedi'i gyhoeddi.
- y terfyn trosglwyddo cyllideb uwch (a elwid gynt yn 'trosglwydd arian') i gyllideb Gwaith yr Etholaeth o hyd at 50% o Gyllideb Gwaith yr Etholaeth (25% ar hyn o bryd).

## Cynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynydd yn sgil chwyddiant blynyddol)

**95.** Gwnaeth y Bwrdd ei benderfyniad ar gyflogau staff Cymorth ym mis Gorffennaf 2025 ac nid oes unrhyw gynigion pellach.

**96.** Bydd cyflogau staff cymorth y Seithfed Senedd, a bennwyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025, yn cynyddu ffigur ASHE Cymru o 4.5% ac fe'u nodir yn yr Atodiad i'r Penderfyniad.

**97.** O ganlyniad i gynnydd o 4.5% yn ASHE Cymru, **Cyllideb Staffio'r Aelodau fydd £148,382** ar gyfer y Seithfed Senedd (mae'r gyllideb hon yn seiliedig ar gyfrifo'r pwyntiau cyflog uchaf ar gyfer y 3 Band uchaf yn swyddfeydd yr Aelodau: Uwch Gynghorydd, Band 1 a Band 2).

**98.** Mae'r cynigion polisi canlynol yn destun ymgynghoriad ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Penderfyniad drafft ar gyfer y Seithfed Senedd yn Atodiad B; os bydd y Bwrdd yn cadarnhau ei benderfyniad i gynnwys y cynigion hyn yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y darpariaethau hyn yn cael eu hymgorffori yn y Penderfyniad terfynol ar gyfer y Seithfed Senedd a gyhoeddir ym mis Mawrth 2026.

### Cynnig: Cyflwyno Taliad Dyletswyddau Ychwanegol newydd i staff sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau dros dro ychwanegol

**99.** Mae Aelodau wedi cyflwyno sylwadau i'r Bwrdd ynghylch y diffyg hyblygrwydd a ddarperir gan y Penderfyniad i dalu staff yn briodol pe baent yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, yn enwedig wrth gyflenwi yn lle cydweithiwr ar Fand cyflog uwch.

**100.** Er nad yw 'taliadau cyfrifoldeb ychwanegol' wedi'u nodi yn y fframwaith staffio ar gyfer Aelodau Seneddol nac Aelodau o Senedd yr Alban, mae cynllun IPSA ar gyfer Aelodau Seneddol yn darparu ar gyfer Taliad Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth o hyd at £1,000 y flwyddyn fel gwobr am 'berfformiad rhagorol'.

**101.** Darperir lwfansau dyletswyddau ychwanegol i staff gan lawer o gyflogwyr, gan gynnwys Comisiwn y Senedd, Llywodraeth Cymru, ac ystod eang o sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector eraill. Yn gyffredinol, dim ond i'r rhai sy'n ymgymryd â dyletswyddau sydd fel arfer yn cael eu neilltuo i fand cyflog uwch y mae'r math hwn o lwfans ar gael, fodd bynnag, weithiau fe'i darperir hefyd i'r rhai sy'n ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol sydd fel arfer yn cael eu neilltuo i'w gradd neu fand cyflog parhaol.

**102.** Mae'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru yn darparu cynnydd o 5% ar gyfer dyletswyddau ychwanegol, er bod y Comisiwn yn darparu ar gyfer dyrchafiad dros dro i fand uwch. Mae Aseiniad Dyrchafiad Dros Dro yn cael ei ddarparu yn Llywodraeth Cymru yn amodol ar ymarfer recriwtio sy'n daladwy am gyfnod dros dro yn unig (hyd at uchafswm o 18 mis).

**103.** Mae gan Aelodau eisoes y gallu i ddarparu dyrchafiad dros dro i aelod o staff i Fand uwch trwy recriwtio agored a theg.

**104.** Mae'r Comisiwn hefyd yn darparu i staff gynyddu dros dro i isafswm y band cyflog nesaf i fyny o fand cyflog parhaol y gweithiwr; ni fyddai hyn yn drefniant priodol ar gyfer staff yr Aelodau, o ystyried y gorgyffwrdd ym mhen uchaf ac isaf y Bandiau cyflog. Yn gyffredinol, mae cynnydd cyflog o 5% rhwng brig y band cyflog a gwaelod y band cyflog nesaf uchaf yng Nghomisiwn y Senedd.

**105.** Felly mae'r Bwrdd yn cynnig rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Aelodau hawlio cost rhoi tâl i'w staff gyda 'thaliad cyfrifoldeb ychwanegol' lle mae'n ofynnol iddynt ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol o Fand uwch, fel a ganlyn:

- Gall Aelodau hawlio costau talu aelod o staff, sydd wedi pasio ei gyfnod prawf, godiad cyflog o 5% am gyfnod o hyd at 6 mis lle mae'n cyflawni dyletswyddau ychwanegol (megis prosiect newydd) ar raddfa uwch, neu i gwmpasu absenoldeb cydweithiwr ar raddfa uwch sy'n absennol o'r gwaith.
- Bydd y taliad cyfrifoldeb ychwanegol hwn yn bensiynadwy.
- Pan wneir y taliad ychwanegol i aelod o staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol ar radd uwch am gyfnod cyfyngedig (e.e. prosiect neu ddarn o waith newydd), byddai costau ychwanegol o'r fath yn cael eu talu o gyllideb staffio Aelod. Pan wneir y taliad ychwanegol i aelod o staff sy'n cyflenwi yn ystod absenoldeb staff (fel y nodir yn yr adran 'Cyflenwi yn ystod absenoldebau staff cymorth' o'r Penderfyniad wedi'i hailenwi), telir y costau hyn drwy'r Penderfyniad, ond ni fyddant yn cael eu didynnu o gyllideb staffio'r Aelod.
- Byddai'r taliad cyfrifoldeb ychwanegol yn destun adolygiad ar ôl y cyfnod o 6 mis, pe bai angen estyniad, i gwmpasu aelod o staff sy'n absennol.

**Cynnig: Darparu mwy o hyblygrwydd i Aelodau a chyfleoedd datblygu i staff drwy gyflwyno trefniadau secondiad mewnol tymor byr newydd**

**106.** Ar hyn o bryd mae rhai staff cymorth yn cael eu cyflogi ar wahân yn rhan-amser gan ddau neu fwy o Aelodau sy'n cyflogi neu Aelod a Grŵp.

**107.** Mae'r Bwrdd yn bwriadu cyflwyno mwy o hyblygrwydd i Aelodau reoli anghenion staffio tymor byr drwy egluro trefniadau ar gyfer secondiadau mewnol staff rhwng swyddfeydd Aelodau neu rhwng swyddfa Aelod a swyddfa Grŵp.

**108.** Gall secondiadau mewnol tymor byr gynorthwyo Aelodau newydd i sefydlu swyddfa neu sefydlu tîm ar ôl yr etholiad a gallent hefyd ddarparu cyflenwad tymor byr yn ystod absenoldebau staff neu roi cyfleoedd datblygu i staff.

**109.** Mae'r dull wedi'i lywio gan gynllun 'Benthyciadau Rhwng Swyddfeydd' IPSA, sydd ar gyfer benthyciadau rhwng swyddfeydd Aelodau hyd at 3 mis. Mae IPSA yn aros am gyngor pellach cyn i'r cynllun 'Benthyciadau Rhwng Swyddfeydd' ddechrau.

**110.** Mae'r Bwrdd yn cysylltu ag IPSA ac efallai y bydd yn gofyn am gyngor pellach, fodd bynnag, mae'n ceisio barn ar y cynnig canlynol:

- Secondiadau Mewnol, hyd at 6 mis, o staff sydd wedi pasio eu cyfnod prawf, rhwng swyddfeydd yr Aelodau a/neu Swyddfeydd y Grŵp.
- Byddai angen cytundeb ysgrifenedig safonol rhwng y ddau barti sy'n cyflogi, yn manylu ar y trefniadau rheoli a'r dull o ad-dalu costau rhwng cyllidebau Aelodau/Grŵpiau. Dylai'r partïon perthnasol gysylltu â Chomisiwn y Senedd cyn cadarnhau cytundeb.
- Rhagwelir, yn dilyn cytundeb ar ddull o'r fath, y byddai costau staffio perthnasol (cyflog ac unrhyw gostau teithio neu lety dros nos) 'secondai mewnol' yn daladwy o gyllideb staffio'r Aelod 'sy'n derbyn' yn ystod cyfnod y secondiad. Bydd telerau ac amodau cyflogaeth yr aelod staff yn parhau i fod yn gyfrifoldeb yr Aelod sy'n ei gyflogi.

**Cynnig: Darperir cymorth ychwanegol i staff yr effeithir arnynt gan adleoli swyddfa Aelod oherwydd newidiadau etholaethol.**

**111.** Mae newidiadau i etholaethau'r Senedd ar gyfer y Seithfed Senedd yn golygu y bydd yr Aelodau presennol sy'n cael eu dychwelyd yn cynrychioli etholaethau newydd, mwy a gall rhai gynrychioli etholaethau gwahanol. Felly, efallai y bydd angen i Aelodau sy'n cael eu hail-ethol adleoli eu swyddfa etholaeth i leoliad neu etholaeth newydd; gall pob Aelod ar ddechrau'r Seithfed Senedd hawlio o gyllideb Cychwyn Swyddfa (neu gall y rhai sy'n aros yn eu hadeiladau presennol hawlio cyllideb Adnewyddu Swyddfa is).

**112.** Gall newid lleoliad swyddfa o ganlyniad i newid etholaeth Aelod sy'n cyflogi gael goblygiadau i staff presennol Aelod sy'n dychwelyd o ran lle gwaith y cytunwyd arno; felly gall

costau cymudo gynyddu neu, os yw taith gymudo aelod o staff yn cael ei hymestyn y tu hwnt i “bellter rhesymol” oherwydd symud swyddfa, efallai y bydd ganddynt hawl i gael eu diswyddo.

**113.** Efallai y bydd angen i'r Bwrdd geisio cyngor ar gyflogaeth a threthi cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol ar ôl ymgynghori ac felly mae'n ceisio barn ar y cynigion canlynol, sy'n seiliedig ar y trefniadau a gyflwynwyd gan IPSA i fynd i'r afael â'r newidiadau i ffiniau Seneddol cyn etholiad Cyffredinol diwethaf y DU.

### Costau cymudo ychwanegol

**114.** Cynigir y bydd Aelod yn gallu hawlio costau ar gyfer ad-dalu costau cymudo ychwanegol aelodau o staff (y costau hynny sy'n ychwanegol at yr hyn yr oeddent yn ei dalu i gymudo i leoliad blaenorol y swyddfa) am gyfnod o dri mis yn dilyn symud swyddfa o ganlyniad i newidiadau etholaeth. Gallai hyn ymwneud â milltiroedd ychwanegol neu ffioedd trafnidiaeth gyhoeddus.

**115.** Byddai angen symud swyddfa o fewn chwe mis i'r etholiad er mwyn hawlio’r costau teithio ychwanegol.

**116.** Byddai unrhyw amser ychwanegol a dreulir yn teithio i’r gwaith yn cael ei ystyried yn amser personol ac nid yn rhan o oriau gwaith cytundebol aelod o staff. Byddai hawliadau am gostau teithio ychwanegol yn drethadwy, sy’n golygu y bydd treth yn cael ei didynnu pan gaiff y swm ei ad-dalu i’r aelod staff.

### Dileu swyddi o ganlyniad i adleoli swyddfa

**117.** Pan fydd cymudo aelod o staff yn ymestyn y tu hwnt i “bellter rhesymol” oherwydd symud swyddfa, efallai y bydd ganddynt hawl i ddileu swydd. Gall dileu swyddi godi hefyd lle gwneir newidiadau eraill i rôl aelod o staff, a ysgogwyd gan y newidiadau yn yr etholaeth.

**118.** Gallai “pellter rhesymol” ymwneud ag amser a/neu gost ychwanegol ac efallai na fydd yr un peth i bob aelod o staff, a gall fod yn seiliedig ar amgylchiadau personol unigolyn. Mae rheolau IPSA yn nodi, yn y rhan fwyaf o achosion, mai 45 munud ychwanegol ar y daith yw'r meini prawf a ystyrir.

**119.** Ni fydd pob achos o symud swyddfa yn arwain at sefyllfa bosibl o ddileu swydd a gall staff adael cyflogaeth yr Aelod am resymau eraill, megis penodiad i swydd arall. Byddai angen i Aelodau geisio cyngor gan Gomisiwn y Senedd i gadarnhau a yw sefyllfa bosibl o ddileu swydd wedi codi ac i sicrhau eu bod yn dilyn y broses gywir. Pan fydd Aelod sy’n dychwelyd yn

gwneud rôl yn ddiangen yn dilyn yr etholiad, o ganlyniad i'r uchod neu oherwydd ad-drefnu'r swyddfa, bydd y costau perthnasol yn daladwy o gyllideb staffio'r Aelod.

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**22. A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 7 yn darparu eglurder ynghylch cymorth staffio i Aelodau?**

**23. A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod?**

**24. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno Taliad Dyletswyddau Ychwanegol newydd ar gyfer staff cymorth?**

**25. A oeddech chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno trefniadau secondiad mewnol ar gyfer staff cymorth?**

**26. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno cymorth ychwanegol i staff cymorth yr effeithir arnynt gan adleoli swyddfa Aelod oherwydd newidiadau etholaeth?**

# Pennod 8: Cymorth i Grwpiau yn y Senedd

## Crynodeb o'r Newidiadau Drafftio

**120.** Mae teitl y bennod wedi'i newid i 'Cymorth i Grwpiau' yn lle'r teitl 'Cymorth i'r Pleidiau Gwleidyddol' presennol ac mae'r bennod ddiwygiedig yn cynnwys adran Diben 'gyflwyniadol' newydd sy'n crynhoi bwriad y polisi. Roedd y cynigion hyn yn destun ymgynghoriad blaenorol ac maent yn ei gwneud yn glir bod y cyllid a ddarperir i gefnogi gwaith Grwpiau gwleidyddol y Senedd, yn hytrach na phleidiau gwleidyddol.

**121.** Mae'r Bennod wedi'i hailstrwythuro a'i symleiddio. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys:

- Cynnwys 'teithio' yn y Diben i egluro, fel ar hyn o bryd, bod hawliadau teithio sy'n ymwneud â gweithgaredd Grŵp yn y Senedd yn wariant cymwys (er bod unrhyw hawliadau teithio sy'n ymwneud â dyletswyddau Aelod yn parhau i fod yn hawliadwy o Bennod 5 Teithio).
- Dileu llawer iawn o ddyblygu sy'n ymwneud â materion staffio grŵp a gwmpesir ym mhennod 7 ar staffio; felly mae'r drafft diwygiedig o bennod 8 yn cynnwys sawl adran lle dylai Arweinwyr Grŵp gyfeirio at yr adrannau perthnasol ym mhennod 7 sy'n ymwneud â phenodi, cyflogaeth, cyflogau a datblygiad cyflog staff Grŵp, a phenodau 4 a 5 sy'n ymwneud â llety dros nos a theithio staff grŵp.
- Dileu cyfeiriadau at y gyllideb gyfan a'r fformiwla dosbarthu rhwng grwpiau, sydd bellach wedi'i chynnwys yn Nhabl 8 yn yr Atodiad i'r Penderfyniad drafft.
- Dileu dyblygu sy'n ymwneud â theithio staff a llety dros nos Grŵp, gan gynnwys cyfeiriad yn lle hynny (yn yr adrannau 7.4, 8.5 ac 8.7newydd) at y darpariaethau teithio a llety dros nos cyffredinol ym Mhenodau 4 a 5.

**122.** Gwnaeth y Bwrdd ei benderfyniad ar gyfer y fformiwla a'r gyfradd fesul Aelod (£60,000) ar gyfer Cymorth Grŵp y Senedd o ddechrau'r Seithfed Senedd ym mis Gorffennaf 2025; nodir y ffigurau hyn yn Nhabl 8 yn yr Atodiad i'r Penderfyniad ac ni fydd unrhyw godiadau blynyddol yn berthnasol o 2026-27. Bydd y gyfradd fesul Aelod yn cael ei haddasu o 1 Ebrill 2027 ac yna bob blwyddyn yn ôl y newid yn ASHE yng Nghymru.

**123.** Gwnaeth y Bwrdd ei benderfyniad ar gyflogau staff Grŵp ym mis Gorffennaf 2025 ac nid oes unrhyw gynigion pellach. Bydd cyflogau staff cymorth y Seithfed Senedd, a bennwyd gan y

Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025 yn cynyddu ffigur ASHE Cymru o 4.5%, ac fe'u nodir yn yr Atodiad i'r Penderfyniad.

## Newid polisi arfaethedig

### Cynnig: Egluro'r amgylchiadau a'r gofynion pan fydd Grŵp yn cael gwasanaethau allanol

**124.** Diben y Cymorth Grwpiau yn y Senedd yw darparu adnoddau i arweinydd Grŵp yn y Senedd ar gyfer gweinyddiaeth ganolog a chydlynu, cefnogaeth ar gyfer gwaith craffu, ymchwil a datblygu polisïau sy'n gysylltiedig â dyletswyddau Aelodau, cefnogaeth gyda chyfathrebu, cefnogaeth fugeiliol a llesiant, offer a gwasanaethau.

**125.** Mae'r Bwrdd yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'r cymorth hwn yn cael ei darparu drwy staff cymorth y Grŵp. Mae'r Bwrdd yn cydnabod, ar adegau, y gallai fod angen arbenigedd penodol mewn polisi neu ymchwil na all staff cymorth Grŵp y Senedd ei ddarparu ac felly mae 'diben' cymorth y Grŵp a nodir ym Mhennod 8 yn cynnwys cyfeiriad at 'wasanaethau a gomisiynir yn allanol'.

**126.** Felly, mae'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud ag arbenigedd allanol (o adran 8.7.A) gan gynnwys ymchwil i ddatblygu polisïau, craffu ar bolisïau, deddfwriaeth a chyllid ac archwilio materion o bwys i etholwyr wedi'u cadw yn y Penderfyniad drafft ar gyfer y Seithfed Senedd (adran newydd 8.1.1(c) ac wedi'u hehangu i gynnwys 'cymorth gyda llesiant' (o ystyried bod hwn yn weithgaredd y cyfeiriwyd ato o'r newydd yn y 'diben' diwygiedig).

**127.** Disgwylir i'r Seithfed Senedd weld grwpiau mwy na'r Senedd bresennol a chyllidebau mwy i'r Grwpiau yn y Senedd o ganlyniad. Felly mae hyn yn golygu bod lle i Grwpiau yn y Senedd wario mwy ar arbenigedd allanol. Mae yna hefyd risgiau o'r canfyddiad bod 'gweithgarwch gwleidyddol plaid' yn cael ei ariannu neu ei gomisiynu gan Grŵp yn y Senedd.

**128.** Felly mae'r Bwrdd yn bwriadu cynnwys y darpariaethau penodol canlynol i egluro ac atgyfnerthu'r gofynion cyfredol:

- mae arweinydd Grŵp y Senedd yn atebol am sicrhau bod unrhyw gostau allanol yn parhau i fod yn gyson â'r egwyddorion a nodir ym Mhennod 1.
- troednodyn newydd yn cyfeirio at y Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd a'r gofyniad i ddilyn y rheolau hyn wrth ddefnyddio adnoddau Penderfyniad, naill ai fel Aelod neu arweinydd Grŵp yn y Senedd.
- dilyn rheolau gweithio oddi ar gyflogres (a elwir hefyd yn IR35) presennol CThEF wrth gael gwasanaethau allanol, a

- ni chaniateir hawlio costau sy'n ymwneud â rhent na morgais drwy gyllideb Grŵp yn y Senedd.

**129.** Mae'r Bwrdd hefyd yn bwriadu cynnwys y gofyniad canlynol:

- Pan fo costau sy'n ymwneud â gwasanaethau allanol yn uwch na'r trothwy dyfynbris a nodir yn adran 1.5.2, rhaid cyflwyno datganiad yn nodi pwrpas y gwaith a pham na ddylai staff a gyflogir gan staff cymorth Grŵp y Senedd ei wneud ochr yn ochr â'r hawliad am ad-daliad.

**Cynnig: Egluro, lle caiff swydd staff cymorth ei dileu yn dilyn newid arweinydd grŵp, y bydd taliadau o'r fath yn cael eu didynnu o gyllideb Grŵp yn y Senedd.**

**130.** Mae'r darpariaethau dileu swydd staff yn y Penderfyniad drafft ar gyfer y Seithfed Senedd wedi'u hegluro a'u symleiddio ac maent yn parhau'r un fath o ran y taliadau dileu swydd a'r amddiffyniad i staff. Fel sy'n wir ar hyn o bryd, bydd dileu swydd staff o ganlyniad i newidiadau i hawliad y grŵp (h.y. newidiadau i faint y grŵp) yn parhau i fod yn daladwy o dan y Penderfyniad ac ni chânt eu didynnu o gyllideb Grŵp yn y Senedd a phan fo dileu swyddi yn digwydd o ganlyniad i ailstrwythuro swyddfa, bydd y rhain yn daladwy o gyllideb Grŵp yn y Senedd.

**131.** Mae Pennod 8 newydd yn egluro, lle caiff swyddi eu dileu o ganlyniad i newid arweinydd grŵp, y bydd costau o'r fath yn daladwy o Gyllideb Grŵp yn y Senedd y grŵp.

**132.** Anogir arweinwyr grŵp i gadw cyflogaeth staff y grŵp, lle bo modd, pan fydd newidiadau arweinyddiaeth grŵp yn digwydd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cydnabod y gallai arweinydd grŵp newydd fod eisiau newid personél allweddol neu ailstrwythuro swyddfa; felly mae achosion o ddileu swyddi o'r fath yn gyson â darpariaethau ailstrwythuro'r swyddfa, sy'n daladwy o gyllideb Cymorth Grŵp yn y Senedd.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

**27. A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 8 yn darparu eglurder ynghylch Cymorth i Grwpiau yn y Senedd?**

**28. A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod?**

**29. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i egluro'r amgylchiadau a'r gofynion pan fydd Grŵp yn cael gwasanaethau allanol?**

**30. A ydych chi'n cytuno â'r eglurhad arfaethedig y bydd costau unrhyw achos o ddileu swyddi staff o ganlyniad i newidiadau i arweinydd grŵp yn cael eu didynnu o gyllideb Grŵp yn y Senedd?**

# Pennod 9: Aelodau sy’n gadael eu swyddi

## Crynodeb o’r newidiadau drafftio

**133.** Mae’r bennod ddiwygiedig yn cynnwys adran Diben ‘cyflwyniadol’ newydd sy'n crynhoi bwriad y polisi. Nid oes unrhyw newidiadau polisi sylweddol, ac mae'r bennod wedi'i symleiddio, gyda gwahanol adrannau wedi'u huno neu eu dileu, gan gynnwys:

- Mae Adran 9.1 ‘Lwfans dirwyn i ben’ wedi'i hailenwi'n 'Costau dirwyn i ben' ac mae wedi'i chrynhoi'n helaeth, heb newid y gofynion na'r ddarpariaeth ar gyfer hawl yr Aelodau.
- Mae adran 9.3 'Grant Ymaddasu' ac adran 9.6 'Grant Ymddeol oherwydd Salwch' wedi cael eu hailenwi'n 'Taliadau Ymaddasu' a 'Thaliadau oherwydd salwch' i'w gwneud hi'n gliriach mai taliad i Aelodau yw hwn, yn hytrach na grant y gellid ei ddehongli fel un sy'n talu costau a gafwyd. Mae hyn hefyd yn gyson â'r term a ddefnyddir ar gyfer ‘Taliadau Dirwyn i Ben’.

Mae adran 9.6 'Grant Ymddeol oherwydd Salwch' hefyd yn cynnwys cyfeiriad tystiolaeth (er enghraifft, nodyn meddygol neu asesiad proffesiynol) i gefnogi hawliadau o'r fath.

## Cynigion Polisi ar gyfer y Seithfed Senedd (gan gynnwys unrhyw gynydd yn sgil chwyddiant blynyddol)

**134.** Nid oes unrhyw newidiadau polisi na chodiadau chwyddiant blynyddol arfaethedig i'r Bennod hon.

### Cwestiynau’r Ymgynghoriad

**31. A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 9 yn darparu eglurder ynghylch taliadau neu wneud hawliadau gan Aelodau sy'n gadael eu swyddi?**

**32. A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod?**

# Atodiad A: Cwestiynau'r Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **Symleiddio** | |
| **1.** | A oes gennych chi unrhyw farn ar newid teitl y Penderfyniad? |
| **2.** | A oes gennych chi unrhyw farn ar y dull newydd o ymdrin â therminoleg ac a ydych chi'n credu ei fod yn haws i'w ddeall? |
| **Pennod 1: Egwyddorion, rheolau cyffredinol, costau eithriadol a dehongliad** | |
| **3.** | A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 1 yn darparu eglurder ynghylch y pwrpas, yr egwyddorion a'r rheolau cyffredinol sy'n berthnasol i Aelodau wrth wneud cais drwy'r Penderfyniad? |
| **4.** | A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fewnosod egwyddor sy'n ymwneud â 'chynrychiolaeth gyfartal'? |
| **5.** | A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod? |
| **Pennod 2: Tâl Aelodau a Deiliaid Swyddi Ychwanegol** | |
| **6.** | A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 2 yn darparu eglurder ynghylch cyflogau a hawliau pensiwn yr Aelodau? |
| **7.** | A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod? |
| **Pennod 3: Cymorth ychwanegol** | |
| **8.** | A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 3 yn darparu eglurder ynghylch y cymorth ychwanegol sydd ar gael i Aelodau? |
| **9.** | A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod? |
| **10.** | A ydych chi'n cytuno â'r cynnydd arfaethedig yn y terfyn costau gofal y gellir eu hawlio yn unol â chyfradd CPI mis Ionawr? |
| **Pennod 4: Llety Dros Nos** | |
| **11.** | A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 4 yn darparu eglurder ynghylch y costau llety dros nos sydd ar gael i Aelodau? |
| **12.** | A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod? |
| **13.** | A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddileu Opsiwn B (treuliau mewn cysylltiad â chartref yn ardal Caerdydd a ddarperir ar draul yr Aelod ei hun)? |
| **14.** | A ydych chi'n cytuno â'r codiadau blynyddol arfaethedig ar gyfer costau llety dros nos a nodir uchod? |
| **15** | A oes gennych chi unrhyw farn ar y newidiadau arfaethedig i gostau cynhaliaeth a nodir uchod ac a oes angen eglurhad neu feini prawf ychwanegol ynghylch hawliadau rhesymol? |
| **Pennod 5: Teithio** | |

| | |
|---|---|
| **16.** | A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 5 yn darparu eglurder ynghylch teithio Aelodau a staff? |
| **17.** | A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod? |
| **Pennod 6: Gwaith Etholaethol** | |
| **18.** | A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 6 yn darparu eglurder ynghylch gwneud hawliadau am Waith Etholaethol? |
| **19.** | A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod? |
| **20.** | A ydych chi'n cytuno â'r codiadau blynyddol arfaethedig ar gyfer Gwaith Etholaethol a chostau cychwyn ac Adnewyddu Swyddfeydd yn unol â chyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr Ionawr 2026? |
| **21.** | A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddileu'r ddarpariaeth i Aelodau hawlio costau band eang ychwanegol yn eu prif gartref? |
| **Pennod 7: Staff Cymorth** | |
| **22.** | A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 7 yn darparu eglurder ynghylch cymorth staffio i Aelodau? |
| **23.** | A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod? |
| **24.** | A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno Taliad Dyletswyddau Ychwanegol newydd ar gyfer staff cymorth? |
| **25.** | A oeddech chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno trefniadau secondiad mewnol ar gyfer staff cymorth? |
| **26.** | A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno cymorth ychwanegol i staff cymorth yr effeithir arnynt gan adleoli swyddfa Aelod oherwydd newidiadau etholaeth? |
| **Pennod 8: Cymorth i Grwpiau yn y Senedd** | |
| **27.** | A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 8 yn darparu eglurder ynghylch Cymorth i Grwpiau yn y Senedd? |
| **28.** | A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod? |
| **29.** | A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i egluro'r amgylchiadau a'r gofynion pan fydd Grŵp yn cael gwasanaethau allanol? |
| **30.** | A ydych chi'n cytuno â'r eglurhad arfaethedig y bydd costau unrhyw achos o ddileu swyddi staff o ganlyniad i newidiadau i arweinydd grŵp yn cael eu didynnu o gyllideb Grŵp yn y Senedd? |
| **Pennod 9: Aelodau sy'n gadael eu swyddi** | |
| **31.** | A ydych chi'n cytuno bod y drafft diwygiedig o Bennod 9 yn darparu eglurder ynghylch taliadau neu wneud hawliadau gan Aelodau sy'n gadael eu swyddi? |
| **32.** | A ydych chi'n credu bod unrhyw hepgoriadau neu ganlyniadau anfwriadol o ailddrafftio'r Bennod? |
| **Cwestiynau Cyffredinol** | |
| **33.** | Er mwyn llywio ei asesiad o effaith y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd ar gydraddoldeb: |

| | |
|---|---|
| | 33.1. A oes gennych farn ar p'un a allai'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon fod ag unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn enwedig i'r bobl hynny sy'n uniaethu ag unrhyw nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br>33.2. A oes gennych farn ar p'un a allai'r materion a godwyd gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael effaith, neu effaith bosibl, ar bobl sy'n uniaethu â'r nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? |
| **Materion eraill** | |
| **34.** | Os oes yna faterion cysylltiedig y teimlwch nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, cyfeiriwch atyn nhw yn eich ymateb, ar bob cyfrif |

# Atodiad B: Penderfyniad Drafft ar Gostau Aelodau o ran Cyflog, Staff a Busnes ar gyfer y Seithfed Senedd 2026-30

# Penderfyniad ar Gostau Aelodau o ran Cyflog, Staff a Busnes'

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swydd yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Aelodau Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd
Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)
Hugh Widdis
Yr Arglwydd Nicholas Bourne o Aberystwyth
Jennifer Long
Gareth Llewellyn

Mae copïau o'r Penderfyniad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: Taliadau@senedd.cymru

# Cynnwys

1. Egwyddorion, rheolau a dehongliad....48

2. Tâl Aelodau a Deiliaid Swyddi Ychwanegol....55

3. Cymorth ychwanegol....58

4. Llety dros nos....61

5. Teithio....64

6. Gwaith Etholaethol....67

7. Staff cymorth....71

8. Cymorth i Grwpiau....77

9. Aelodau sy'n gadael eu swyddi....80

Atodiad A....82

Atodiad B....89

# 1. Egwyddorion, rheolau a dehongliad

## Diben

Mae’r Bennod hon yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r Penderfyniad hwn ac yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddilyn yr egwyddorion hynny.

Mae’r Bennod hon hefyd yn nodi rheolau cyffredinol sy’n berthnasol i gyflwyno hawliadau, hawliadau am gostau nad ydynt yn dod o fewn Penodau 2 i 9 ac ystyr gwahanol dermau a ddefnyddir yn y Penderfyniad hwn.

## 1.1 Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

1.1.1 Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (“y Bwrdd”) yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o’r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (“y Mesur”).

1.1.2 Mae’r penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd, yn unol â'i bwerau o dan adrannau 20, 22, 24, 53 a 54 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac yn unol ag adran 3 o’r Mesur, wedi'u nodi yn y ddogfen hon.

1.1.3 Daw’r penderfyniadau i rym ar [DYDDIAD] ac mae'r ddogfen hon yn disodli Penderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau 2025-26 (Rhif 2).

## 1.2 Amcanion ac egwyddorion y Bwrdd

1.2.1 Mae adran 3 o’r Mesur yn darparu bod rhaid i’r Bwrdd arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar wireddu'r amcanion canlynol:

(a) darparu lefel taliadau ar gyfer Aelodau o'r Senedd:

(i) sy’n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, ac

(ii) nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau y mae ganddynt yr ymrwymiad a’r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i’r Senedd,

(b) darparu adnoddau ar gyfer Aelodau o'r Senedd sy'n ddigonol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau fel Aelodau o’r Senedd, a

(c) sicrhau didwylledd, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant cyllid cyhoeddus.

1.2.2 Wrth wneud ei Benderfyniad, rhaid i’r Bwrdd hefyd roi sylw i’w egwyddor graidd bod rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.

## 1.3 Egwyddorion sy'n berthnasol i bob hawliad o dan y Penderfyniad hwn

1.3.1 Mae’r egwyddorion a ganlyn yn deillio o’r Cod Ymddygiad a dyma sail y rheolau ar gyfer gweinyddu taliadau o dan y Penderfyniad hwn.

**Cyflawni dyletswyddau'r Aelodau**

Dylai Aelodau ond gwneud hawliadau am wariant sy’n angenrheidiol er mwyn i’w dyletswyddau gael eu cyflawni.

**Dim gweithgarwch gwleidyddol plaid**

Ni ddylai Aelodau wneud hawliadau sy’n gysylltiedig â gweithgarwch gwleidyddol plaid.

**Dim budd personol**

Ni ddylai Aelodau wneud hawliadau sy’n arwain at ganfyddiad o fudd ariannol personol uniongyrchol neu anuniongyrchol amhriodol i Aelod neu unrhyw berson neu sefydliad arall, gan gynnwys plaid wleidyddol neu sefydliad gwleidyddol.

**Atebolrwydd a thryloywder**

Mae'r Aelodau'n gyfrifol am wariant a gwneud hawliadau o dan y Penderfyniad hwn. Rhaid i’r Aelodau gynnal cofnodion priodol a rheoli eu staff a'u cyllidebau'n briodol mewn pob mater sy’n ymwneud â hawliadau o dan y Penderfyniad hwn. Er y gall Aelodau ddirprwyo rhai tasgau i gefnogi’r gweithgareddau hynny, yr Aelod sy'n parhau i fod yn gyfrifol.

Rhaid i Aelodau ddarparu tystiolaeth i gefnogi hawliadau, oni bai bod y Penderfyniad hwn yn nodi fel arall.

Rhaid i Aelodau fod yn agored ac yn dryloyw wrth wneud hawliadau. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol, o dan adran 22(2) o’r Ddeddf, mae Comisiwn y Senedd yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth am wariant yr eir iddo gan Aelodau ar gael i'r cyhoedd.

**Gwerth am arian a rhesymoldeb**

Rhaid i Aelodau sicrhau bod unrhyw wariant sy’n cael ei hawlio o dan y Penderfyniad hwn yn cynnig gwerth am arian ac mai dyna’r opsiwn mwyaf cynaliadwy a rhesymol sydd ar gael, ac nad yw’n cael effaith negyddol ar enw da y Senedd neu ei Haelodau.

Rhaid i’r Aelodau beidio â gwneud cais o dan y Penderfyniad hwn am unrhyw beth y mae gan Aelodau yr hawl i’w geisio o unrhyw ffynhonnell arall.

**Cydraddoldeb cynrychiolaeth**

Rhaid i Aelodau sicrhau eu bod yn trin etholwyr yn gyfartal, waeth beth fo barn wleidyddol plaid (gwirioneddol neu ganfyddedig) yr etholwyr, lle mae hawliadau’n ymwneud ag ymgysylltu ag etholwyr.

## 1.4 Canllawiau ar gyflwyno hawliadau

1.4.1 Atgoffir yr Aelodau fod Comisiwn y Senedd yn llunio canllawiau a nodiadau arfer da i gynorthwyo’r Aelodau i ddeall y Penderfyniad hwn. Nid yw unrhyw ddogfennaeth a gyhoeddir gan Gomisiwn y Senedd yn effeithio ar gynnwys y Penderfyniad hwn sy'n cael blaenoriaeth dros unrhyw ddogfennaeth o'r fath.

## 1.5 Rheolau cyffredinol ar gyflwyno hawliadau

1.5.1 Rhaid i Aelodau gwblhau ffurflenni hawlio yn gywir a'u cyflwyno i Gomisiwn y Senedd yn unol â’r amserlenni a nodir yn adran 1.5.6.

1.5.2 Yn ddarostyngedig i adran 1.5.3, rhaid cyfeirio unrhyw beth sy'n costio £1,500 neu fwy (gan gynnwys unrhyw beth sy'n costio cyfanswm o £1,500 neu fwy dros gyfnod o amser) yn ysgrifenedig at Gomisiwn y Senedd a rhaid cynnwys o leiaf dri dyfynbris cystadleuol. Ond os oes amgylchiadau eithriadol, caiff Aelod ofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gomisiwn y Senedd i beidio â chymhwyso’r gofyniad i ddarparu tri dyfynbris cystadleuol.

1.5.3 Nid yw'r gofyniad i gael tri dyfynbris cystadleuol yn gymwys pan fo Aelod yn defnyddio contract sydd ar gael i’w ddefnyddio gan Gomisiwn y Senedd.

1.5.4 Pan fo derbynneb wedi'i chyfeirio at rywun heblaw'r Aelod neu ei staff cymorth, rhaid darparu tystiolaeth i ddangos bod y costau'n ymwneud â chyflawni dyletswyddau'r Aelod yn unig.

1.5.5 Ni fydd Aelod yn gallu hawlio am ffioedd talu'n hwyr na ffioedd sy'n deillio o ddiffyg derbynebau sy'n ofynnol o dan y Penderfyniad hwn.

1.5.6 Rhaid cyflwyno hawliadau o fewn tri mis i ddiwedd y mis y mae'r costau'n ymwneud ag ef oni bai bod amserlen amgen yn cael ei rhoi gan Gomisiwn y Senedd neu y gall yr Aelod ddarparu cyfiawnhad rhesymol dros beidio â chyflwyno'r hawliad o fewn tri mis. Os cyflwynir cais yn hwyr heb gyfiawnhad rhesymol, bydd hynny yn arwain at wrthod y cais.

1.5.7 Mae ad-daliadau ar gyfer teithio (gan gynnwys llety) ar fusnes pwyllgor y Senedd yn fater i Gomisiwn y Senedd ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Penderfyniad hwn.

## 1.6 Hawliadau am ran o'r flwyddyn

1.6.1 Lle mae'r Penderfyniad hwn yn diffinio cyflog drwy gyfeirio at flwyddyn ariannol, cyfrifir y cyflog ar sail pro-rata:

(a) pan fydd Aelod yn dod yn Aelod neu'n peidio â bod yn Aelod;

(b) pan fydd person yn dod yn ddeiliad swydd ychwanegol neu'n peidio â bod yn ddeiliad swydd ychwanegol.

1.6.2 Lle mae'r Penderfyniad hwn yn diffinio cyllideb drwy gyfeirio at flwyddyn ariannol, cyfrifir y gyllideb ar sail pro-rata:

(a) pan fydd Aelod yn dod yn Aelod neu'n peidio â bod yn Aelod;
(b) pan yw Aelod yn ymuno â Grŵp yn y Senedd neu'n gadael Grŵp yn y Senedd.

1.6.3 Pan fydd Aelod:

(a) yn peidio â bod yn Aelod;
(b) yn gadael Grŵp yn y Senedd;

hanner ffordd drwy flwyddyn ariannol, efallai y bydd gofyn i'r Aelod neu Grŵp yn y Senedd ad-dalu unrhyw swm y maent wedi'i gael sy'n fwy na'r gyllideb pro-rata is.

## 1.7 Costau nad ydynt yn dod o dan Benodau 2 i 9

1.7.1 Gall Aelod wneud cais am gostau na ellir eu hawlio o dan Benodau 2 i 9.

1.7.2 Rhaid i'r cais:

(a) gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Bwrdd;

(b) cynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r Bwrdd i benderfynu arno (gall y Bwrdd ofyn i Gomisiwn y Senedd am ragor o wybodaeth ynghylch y cais);

(c) nodi'n glir unrhyw wybodaeth y mae am i'r Bwrdd ei thrin yn gyfrinachol (a all gynnwys enw'r Aelod).

1.7.3 Bydd y Bwrdd yn ymgynghori â'r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn ei rôl fel y Swyddog Cyfrifo, cyn cytuno ar unrhyw gostau o dan yr adran hon.

1.7.4 Er mwyn talu costau o dan yr adran hon, gall y Bwrdd ganiatáu trosglwyddo arian rhwng cyllidebau na fyddai fel arall yn cael ei ganiatáu o dan y Penderfyniad hwn.

1.7.5 Bydd y Bwrdd yn adolygu costau a gymeradwywyd yn unol â'r adran hon.

1.7.6 Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi gwybodaeth am gostau a gymeradwywyd yn unol â'r adran hon yn ei Adroddiad Blynyddol.

## 1.8 Dehongli

Yn y Penderfyniad hwn (ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall):

ystyr "Deddf 2006" yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

ystyr "ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol ag ASHE Cymru" yw wedi'i addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn gan y newid yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Enillion Canolrif gros blynyddol ar gyfer cyflogeion amser llawn yng Nghymru, rhwng mis Ebrill y flwyddyn honno a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol.

ystyr "cyswllt busnes" yw corff corfforedig, cwmni neu ymddiriedolaeth (ac eithrio sefydliad plaid wleidyddol) y mae'r Aelod wedi'i gysylltu ag ef neu berson sydd wedi'i gysylltu â'r Aelod drwy gorff corfforedig, cwmni neu ymddiriedolaeth. At y dibenion hyn, penderfynir a yw Aelod wedi'i gysylltu â chorff corfforedig, cwmni, ymddiriedolaeth neu berson yn unol ag adran 252 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

ystyr "Ardal Caerdydd" yw'r ardal o fewn radiws o 5 milltir o'r Senedd.

ystyr "plentyn" yw person o dan 18 oed.

ystyr "anabledd" yw anghydraddoldeb, anfantais, diffyg grym neu wahaniaethu a allai effeithio ar bobl sydd ag amhariad oherwydd rhwystrau i fynediad neu gynhwysiant.

ystyr "blwyddyn ariannol" yw'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth.

ystyr "Ardal Fewnol" yw'r ardal sy'n cynnwys yr etholaethau a ganlyn:

Afan Ogwr Rhondda
Pontypridd Cynon Merthyr
Blaenau Gwent Caerffili Rhymni
Sir Fynwy Torfaen
Casnewydd Islwyn
Caerdydd Penarth
Caerdydd Ffynnon Taf
Pen-y-bont Bro Morgannwg

ystyr "prif gartref" yw'r cartref yng Nghymru y mae Aelod wedi'i gofrestru gyda Chomisiwn y Senedd fel ei brif gartref.

ystyr "y Mesur" yw Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

ystyr "Aelod" yw Aelod o'r Senedd.

ystyr "dyletswyddau Aelod" yw gweithgaredd mewn perthynas â busnes a chyfrifoldebau'r Senedd a busnes etholaethol, lle bynnag yr ymgymerir ag ef, yn rhinwedd swydd gyhoeddus Aelod o'r Senedd.

ystyr "partner yr Aelod" yw'r hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 2.4(i).

ystyr "Ardal Allanol" yw'r ardal sy'n cynnwys yr etholaethau a ganlyn:

Bangor Conwy Môn
Clwyd
Fflint Wrecsam
Gwynedd Maldwyn
Ceredigion Penfro
Sir Gaerfyrddin
Gŵyr Abertawe
Brycheiniog Tawe Nedd

ystyr "derbynneb" yw tystiolaeth ddogfennol o wariant, er enghraifft derbynneb neu anfoneb wreiddiol.

ystyr "llety â gwasanaeth" yw uned breswyl â rhai neu bob un o'r nodweddion a ganlyn:

(a) gwasanaethau (megis gwasanaethau cadw tŷ, golchi dillad a derbynfa) a ddarperir i westeion;

(b) cyfleusterau ymolchi, coginio a bwyta sydd ar gael ar wahân i unedau eraill;

(c) trethi a chyfleustodau sydd wedi'u cynnwys yn y pris rhentu.

ystyr "etholiad Senedd" yw etholiad cyffredin neu eithriadol y Senedd.

ystyr "Grŵp yn y Senedd" yw grŵp gwleidyddol fel y'i diffinnir yn Rheol Sefydlog 1.3

ystyr "Rheolau Sefydlog" yw Rheolau Sefydlog Senedd Cymru.

# 2. Tâl Aelodau a Deiliaid Swyddi Ychwanegol

## Diben

Diben y Bennod hon yw darparu Aelod â lefel o daliad (gan gynnwys cyflog a buddion pensiwn) sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd eu swyddogaethau, ac nad yw, am resymau ariannol, yn rhwystro pobl sydd â'r ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Senedd.

## 2.1 Y swm sy’n daladwy

2.1.1 Cyflog Aelod yw:

a. y swm a nodir yn Rhan 1 o Atodiad 1, ynghyd â

b. swm ychwanegol a nodir yn Rhan 2 o Atodiad 1 pan fo'r Aelod yn dal swydd ychwanegol.[5]

2.1.2 Y swyddi ychwanegol yw:

| |
|---|
| Y Prif Weinidog |
| Gweinidog Cymru |
| Y Cwnsler Cyffredinol |
| Dirprwy Weinidog Cymru |
| Y Llywydd |
| Dirprwy Lywydd |
| Comisiynydd y Senedd |
| Cadeirydd Pwyllgor |
| Aelod o’r Pwyllgor Busnes |
| Arweinydd Grŵp yn y Senedd |

[5] Mae adran 2.1.1 yn ddarostyngedig i unrhyw ostyngiad mewn cyflog a ddarperir o dan adran 21 o'r Ddeddf.

2.1.3 Bydd Aelod sy’n gwneud mwy nag un o’r swyddi ychwanegol (gan gynnwys dros dro neu drwy ddynodiad) yn cael cyflog deiliad swydd ychwanegol ar gyfer un yn unig o’r swyddi ychwanegol hynny, sef yr uchaf ei thâl o blith y swyddi ychwanegol hynny.

2.1.4 Mae cyflog Cwnsler Cyffredinol nad yw'n Aelod yr un fath â chyflog Cwnsler Cyffredinol sy'n Aelod.

## 2.2 Deiliaid swyddi ychwanegol dros dro neu ddynodedig

2.2.1 Bydd person sy’n arfer swyddogaethau swydd ychwanegol dros dro neu o dan ddynodiad yn unol â'r Ddeddf neu'r Rheolau Sefydlog yn derbyn y cyflog ychwanegol perthnasol am hyd y cyfnod y maent yn arfer y swyddogaethau hynny.

2.2.2 Dim ond os yw'r person wedi arfer y swyddogaethau'n barhaus am gyfnod o un mis calendr o leiaf y mae adran 2.2.1 yn berthnasol i Gadeirydd Pwyllgor.

## 2.3 Mynegai blynyddol

2.3.1 Bydd cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn cael eu haddasu yn unol ag ASHE Cymru.

## 2.4 Talu cyflogau

2.4.1 Telir cyflogau bob mis mewn ôl-daliadau ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis, ond gall Aelod ofyn am un taliad cyflog ymlaen llaw fesul blwyddyn ariannol.

## 2.5 Pensiwn

2.5.1 Bydd yr Aelodau yn cael buddion pensiwn fel y nodir yn rheolau Cynllun Pensiwn Aelodau o’r Senedd.[6] Mae’r Cynllun yn gynllun buddion diffiniedig sy'n darparu buddion ar sail Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio. Mae hyn yn golygu bod pensiwn Aelod yn seiliedig ar ei enillion cyfartalog dros ei gyfnod yn y swydd fel Aelod o'r Senedd ac fel deiliad swydd ychwanegol, os oedd ganddo swydd o'r fath.

[6] Cynllun Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa Aelodau'r Senedd, Canllaw i Aelodau - https://bwrddtaliadau.cymru/media/v4wh14wq/final-aqua-a5-care-7th-senedd-welsh.pdf

2.5.2 Bydd Aelodau'n ymuno â'r Cynllun yn awtomatig pan gânt eu dychwelyd fel Aelodau, oni bai eu bod yn dewis optio allan.

# 3. Cymorth ychwanegol

## Diben

Diben y Bennod hon yw caniatáu i Aelodau hawlio costau cymorth ychwanegol sy'n ymwneud ag anableddau a chyflyrau meddygol a chyfrifoldebau gofalu a rhianta, er mwyn cefnogi Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau. Mae, hefyd, yn darparu ar gyfer diogelwch ym mhrif gartref Aelod.

## 3.1 Cymorth sy'n ymwneud ag anabledd neu gyflwr meddygol

3.1.1 Pan fo angen cymorth ar Aelod anabl oherwydd y rhwystrau y mae'n eu hwynebu fel Aelod anabl, gall hawlio am gostau sy'n ymwneud â'r cymorth hwnnw.

3.1.2 Yn yr adran hon, mae "rhwystrau" yn cynnwys rhwystrau agweddol, rhwystrau cyfathrebu, rhwystrau amgylcheddol a rhwystrau sefydliadol.

3.1.3 Pan fo Aelod sydd â chyflwr meddygol tymor byr angen cymorth sy'n deillio o'r cyflwr, gall hawlio costau sy'n ymwneud â'r cymorth hwnnw.

3.1.4 Gall Aelod hawlio am gostau diwallu anghenion person anabl (er enghraifft, staff cymorth neu etholwr), lle mae'r costau'n ymwneud â chyflawni dyletswyddau'r Aelod.

3.1.5 Gall Comisiwn y Senedd ofyn am dystiolaeth (er enghraifft, nodyn meddygol neu asesiad proffesiynol) i gefnogi hawliadau a wneir o dan yr adran hon. Gellir hawlio costau cael tystiolaeth o'r fath o dan yr adran hon.

3.1.6 Gall hawliadau o dan yr adran hon fod yn destun adolygiad cyfnodol. Bydd angen hawliad newydd ar gyfer hawliadau pellach a wneir o dan yr adran hon am reswm newydd.

3.1.7 Bydd costau o dan yr adran hon yn cael eu talu o dan y Penderfyniad hwn, ac ni fyddant yn cael eu didynnu o unrhyw gyllideb benodol sydd ar gael i Aelod.

## 3.2 Cymorth sy'n ymwneud â chyfrifoldebau gofalu

3.2.1 Gall Aelod hawlio hyd at y swm perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Atodiad A am gostau sy'n ymwneud â pherson sy'n dibynnu ar yr Aelod am ofal y person, (gan gynnwys gofal plant), er mwyn galluogi'r Aelod i gyflawni dyletswyddau'r Aelod.

3.2.2 Gellir gwneud hawliad o dan yr adran hon am gostau sy'n ymwneud â gofal a ddarperir ar yr adegau canlynol:

(a) y tu allan i'r oriau 09:00 i 18:00, o ddydd Llun i ddydd Gwener;
(b) ar benwythnosau.

3.2.3 Gall Aelod hawlio o dan yr adran hon lle darperir y gofal gan ofalwr cofrestredig, ac ar gyfer gofal hyd at dri o bobl.

3.2.4 Gellir hawlio costau llety dros nos ychwanegol i Aelodau y mae eu prif gartrefi wedi'u lleoli yn yr Ardal Allanol, ac sydd â dibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda nhw yn Ardal Caerdydd o dan adran 4.3.3 o Bennod 4.

## 3.3 Cymorth sy'n ymwneud ag absenoldeb rhiant

3.3.1 Yn yr adran hon, mae absenoldeb rhiant yn golygu'r canlynol:

(a) absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb tadolaeth cyn genedigaeth plentyn;
(b) absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb tadolaeth i ofalu am blentyn o dan 12 mis oed;
(c) absenoldeb mabwysiadu i ofalu am blentyn yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl mabwysiadu.

3.3.2 Tra bo Aelod ar absenoldeb rhiant, mae'r canlynol yn gymwys ar gyfer yr Aelod:

(a) mae'n rhaid ei fod yn parhau i gael y cyflog a ddarperir ym Mhennod 2 (gan gynnwys unrhyw gyflog swyddfa ychwanegol);
(b) gall hawlio costau staff cymorth ychwanegol neu unrhyw adnodd ychwanegol arall am hyd at 12 mis, er mwyn caniatáu parhad wrth gyflawni dyletswyddau'r Aelod heblaw am y rheini na all ond yr Aelod ei hun eu cyflawni (megis mynychu trafodion y Senedd);

dim ond os yw'r Aelod wedi darparu tystiolaeth i Gomisiwn y Senedd fod yr Aelod yn cymryd yr absenoldeb (er enghraifft, tystysgrif MATB1 ar gyfer absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth, neu Dystysgrif Paru ar gyfer absenoldeb mabwysiadu).

3.3.3 Mewn perthynas â hawliad o dan adran 3.3.2(b), rhaid i'r Aelod, hefyd, nodi pam mae angen y staff cymorth neu'r adnodd ychwanegol a sut y caiff ei ddefnyddio.

3.3.4 Pan fydd Aelod yn gwneud hawliad o dan adran 3.3.2(b) am gostau staff cymorth ychwanegol, mae adrannau 7.1 i 7.6 a 7.8 o Bennod 7 yn gymwys i gyflogi'r staff cymorth ychwanegol, ac eithrio y telir yr holl gostau o dan y Penderfyniad hwn ac ni chânt eu didynnu o'r gyllideb sydd ar gael o dan adran 7.2.1.

3.3.5 Bydd costau o dan yr adran hon yn cael eu talu o dan y Penderfyniad hwn, ac ni fyddant yn cael eu didynnu o unrhyw gyllideb benodol sydd ar gael i Aelod.

## 3.4 Diogelwch ym mhrif gartref Aelod

3.4.1 Gall Aelod hawlio costau sy'n ymwneud â mesurau diogelwch uwch ym mhrif gartref yr Aelod, lle mae'r mesurau wedi'u hargymell gan Gomisiwn y Senedd.

# 4. Llety dros nos

## Diben

Diben y Bennod hon yw caniatáu i Aelodau hawlio am gostau sy'n codi pan fydd angen iddyn nhw (a'u staff cymorth) aros o'u cartrefi i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'n rhoi hyblygrwydd i Aelodau drefnu arosiadau i ffwrdd o'u cartrefi yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w harferion gwaith a'u cyfrifoldebau gofalu.

## 4.1 Aelodau sydd â phrif gartref yn yr Ardal Fewnol ond nid Ardal Caerdydd

4.1.1 Gall Aelod hawlio hyd at y swm perthnasol yn Rhan 4 o Atodiad A am gostau gwesty, gwely a brecwast neu lety â gwasanaeth yn Ardal Caerdydd.

## 4.2 Aelodau sydd â phrif gartref yn yr Ardal Allanol

4.2.1 Gall Aelod hawlio o dan Opsiwn A neu B isod. Gall Aelod hawlio o dan un Opsiwn yn unig ar unrhyw adeg benodol. Rhaid i Aelod sy'n dymuno newid Opsiwn hysbysu Comisiwn y Senedd yn ysgrifenedig, o leiaf fis cyn i'r newid ddod i rym.

## 4.3 Opsiwn A

4.3.1 Gall Aelod hawlio am gostau sy'n ymwneud â rhentu eiddo wedi'i ddodrefnu pan fo'r canlynol yn gymwys:

(a) mae'r eiddo yn Ardal Caerdydd;
(b) mae'r eiddo wedi'i rentu drwy asiantaeth, neu gan landlord, sydd wedi'i drwyddedu gyda Rhentu Doeth Cymru; a hefyd
(c) nid yw'r eiddo wedi ei is-osod gan yr Aelod.

4.3.2 Y costau y gellir eu hawlio mewn perthynas â'r eiddo yw'r canlynol:

(a) rhent (gan gynnwys unrhyw dâl gwasanaeth a rhent tir) hyd at y swm perthnasol yn Rhan 4 o Atodiad A;
(b) treth gyngor (ond os yw'r eiddo ym mand G, H neu I, yr uchafswm y gellir ei hawlio yw'r dreth gyngor a fyddai wedi bod yn daladwy pe bai'r eiddo ym mand F);
(c) cyfleustodau (h.y. trydan, nwy, ffôn, dŵr a charthffosiaeth);
(d) band eang;
(e) trwydded deledu;

(f) yswiriant;

(g) mesurau diogelwch uwch a argymhellwyd gan Gomisiwn y Senedd.

4.3.3 Pan fo gan Aelod gyfrifoldebau gofalu am ddibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda'r Aelod yn yr eiddo, gall hefyd hawlio am gostau llety ychwanegol sy'n ymwneud â'r cyfrifoldebau gofalu, hyd at y swm perthnasol yn Rhan 4 o Atodiad A.

4.3.4 Dim ond os yw'r Aelod wedi cyflwyno achos busnes i Gomisiwn y Senedd, a bod Comisiwn y Senedd wedi cymeradwyo'r achos busnes, y caniateir gwneud hawliad o dan adran 4.3.3.

4.3.5 Pan fydd Aelod yn cael ad-daliad ar ddiwedd cytundeb rhentu o unrhyw swm a ariannwyd o dan y Penderfyniad hwn, neu unrhyw Benderfyniad arall (megis blaendal rhent), rhaid i'r Aelod ddychwelyd yr ad-daliad i Gomisiwn y Senedd.

## 4.4 Opsiwn B

4.4.1 Gall Aelod hawlio hyd at y swm perthnasol yn Rhan 4 o Atodiad A am gostau gwesty, gwely a brecwast neu lety â gwasanaeth.

## 4.5 Prif gartrefi mewn achosion ar y ffin

4.5.1 Pan fo gan Aelod brif gartref sy'n agos at y ffin rhwng Ardal Caerdydd a'r Ardal Fewnol, neu sy'n agos at y ffin rhwng yr Ardal Fewnol a'r Ardal Allanol, caiff yr Aelod wneud cais o dan adran 1.7 o Bennod 1 i'w brif gartref gael ei drin fel pe bai wedi'i leoli mewn ardal wahanol i'r ardal lle mae'r prif gartref wedi'i leoli mewn gwirionedd.

## 4.6 Llety dros nos arall (o fewn y Deyrnas Unedig)

4.6.1 Gall Aelod hawlio hyd at y swm perthnasol yn Rhan 4 o Atodiad A am gostau gwesty, gwely a brecwast neu lety â gwasanaeth lle byddai'n afresymol dychwelyd i brif gartref yr Aelod, neu Ardal Caerdydd.

## 4.7 Llety dros nos y tu allan i'r Deyrnas Unedig

4.7.1 Gall Aelod hawlio am gostau llety y tu allan i'r Deyrnas Unedig o dan adran 5.2.2.

## 4.8 Cynhaliaeth

4.8.1 Pan fydd Aelod yn gwneud hawliad am lety o dan adran 4.1, 4.4 neu 4.6, gall, mewn unrhyw gyfnod o 24 awr, hawlio hyd at y swm perthnasol yn Rhan 4 o Atodiad A am gost

cynhaliaeth, lle nad yw darpariaeth sy'n ymwneud â chynhaliaeth wedi'i chynnwys ym mhris y llety.

## 4.9 Llety dros nos a chynhaliaeth i staff cymorth

4.9.1 Caiff Aelod (neu arweinydd Grŵp yn y Senedd) hawlio costau llety dros nos (gan gynnwys cynhaliaeth) i'w staff cymorth pan fo'r llety at ddiben cefnogi'r Aelod i gyflawni dyletswyddau'r Aelod (neu weithgaredd sy'n dod o fewn y Diben a nodir ym Mhennod 8).

4.9.2 Mae adrannau 4.6 a 4.8 (gan gynnwys y symiau perthnasol a nodir yn Rhan 4 o Atodiad A ar gyfer adrannau 4.6 a 4.8) ac adran 4.7 yn gymwys i hawliadau o dan adran 4.9.1 yn yr un modd ag y maent yn gymwys i hawliadau am lety a chynhaliaeth i Aelodau.

4.9.3 Bydd costau hawliadau o dan adran 4.9.1 a wneir gan Aelod yn cael eu didynnu o'r gyllideb sydd ar gael i Aelodau o dan adran 7.2.1.

4.9.4 Bydd costau hawliadau o dan adran 4.9.1 a wneir gan arweinydd Grŵp yn y Senedd yn cael eu didynnu o'r gyllideb sydd ar gael i arweinydd Grŵp yn y Senedd o dan adran 8.1.1.

## 4.10 Hawliadau o dan y Bennod hon

4.10.1 Ni fydd costau o dan adrannau 4.1 i 4.8 yn cael eu didynnu o unrhyw gyllideb benodol sydd ar gael i Aelodau.

4.10.2 Pan fydd nosweithiau olynol o lety mewn gwesty yn cael eu trefnu mewn un trafodiad, mae'r terfynau nosweithiol uchaf yn Rhan 4 o Atodiad A yn berthnasol i'r gost gyfartalog fesul noson.

# 5. Teithio

## Diben

Diben y Bennod hon yw caniatáu i Aelodau hawlio costau teithio iddyn nhw eu hunain, eu staff cymorth a'u teuluoedd, pan fydd angen i Aelodau deithio i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'n rhoi hyblygrwydd i Aelodau drefnu eu trefniadau gwaith yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w harferion gwaith.[7]

## 5.1 Teithio o fewn y Deyrnas Unedig

5.1.1 Gall Aelod hawlio hyd at y swm perthnasol yn Rhan 5 o Atodiad A am gostau teithio o fewn y Deyrnas Unedig.

5.1.2 Lle mae Rhan 5 o Atodiad A yn cyfeirio at "siwrneiau dwyffordd a ganiateir" mae'n golygu taith lle mae Aelod yn defnyddio cerbyd i deithio o'i gartref i'r orsaf reilffordd, yr orsaf fysiau neu'r maes awyr addas agosaf, ac mae'n angenrheidiol dychwelyd y cerbyd i gartref yr Aelod.

## 5.2 Teithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig

5.2.1 Gall Aelod hawlio hyd at y swm perthnasol yn Rhan 5 o Atodiad A am gostau:

(a) pris tocyn dwyffordd safonol i ac o gyrchfan y tu allan i'r Deyrnas Unedig (h.y. teithio rhyngwladol), a
(b) llety, prydau bwyd a theithio achlysurol sy'n gysylltiedig â'r daith honno.

5.2.2 Cyn gwneud trefniadau teithio rhyngwladol, rhaid i'r Aelod gyflwyno achos busnes i Gomisiwn y Senedd i'w gymeradwyo.

5.2.3 Rhaid i'r achos busnes gynnwys:

(a) y rhesymeg dros y daith ryngwladol;
(b) nifer yr arosiadau dros nos sy'n ofynnol;
(c) pam mae'r ymweliad yn angenrheidiol er mwyn galluogi'r Aelod i gyflawni ei ddyletswyddau;

[7] Yn unol â'r egwyddorion ym Mhennod 1, dylai pob gwariant teithio ddefnyddio unrhyw ostyngiadau, cardiau rheilffordd, tocynnau rhatach perthnasol ac ati.

(d) sut y byddai'r ymweliad:

(i) o fudd i'r Aelod yn ei rôl fel Aelod o'r Senedd ac i'r Senedd ehangach;

(ii) yn caniatáu i'r Aelod gasglu syniadau newydd a fyddai o fudd i'r Senedd;

(iii) galluogi'r Aelod i hyrwyddo Cymru a gwaith y Senedd;

(iv) gwella enw da rhyngwladol y Senedd.

5.2.4 Pan fo mwy nag un Aelod yn bwriadu teithio i'r un lleoliad at yr un diben, gellir cyflwyno un achos busnes ar ran yr holl Aelodau (ar yr amod bod yr achos busnes yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 5.2.3 ar gyfer pob Aelod).

## 5.3 Teithio oherwydd cyfarfodydd Senedd heb eu trefnu

5.3.1 Gall Aelod sydd ar wyliau pan gynhelir Cyfarfod Llawn yn y Senedd o dan Reol Sefydlog 12.3 neu 12.13A, neu pan gynhelir cyfarfod Pwyllgor y Senedd o dan Reol Sefydlog 17.46, hawlio hyd at y swm perthnasol yn Rhan 5 o Atodiad A ar gyfer:

(a) costau dychwelyd i'r Deyrnas Unedig o dramor;
(b) costau teithio i ailddechrau gwyliau yn dilyn yr adalw.

## 5.4 Teithio gan bartner neu blentyn

5.4.1 Gall Aelod hawlio hyd at y swm perthnasol yn Rhan 5 o Atodiad A am gostau uchafswm o 12 taith sengl fesul aelod o'r teulu fesul blwyddyn ariannol i deithio rhwng etholaeth neu brif gartref yr Aelod ac ardal Caerdydd.

5.4.2 Mae siwrnai ddwyffordd yn cyfrif fel dwy siwrnai unffordd.

5.4.3 Yn adran 5.4.1, ystyr "aelod o'r teulu" yw:

(a) partner yr Aelod;
(b) plentyn sy'n byw fel un o deulu'r Aelod.

5.4.4 Ni chaiff Aelod hawlio o dan adran 5.4.1 os yw'r aelod o'r teulu yn teithio yn yr un car â'r Aelod.

## 5.5 Teithio achlysurol gan staff cymorth yr Aelodau rhwng ardal Caerdydd a'r etholaeth

5.5.1 Gall Aelod hawlio hyd at y swm perthnasol yn Rhan 5 o Atodiad A am gostau ei staff cymorth yn teithio rhwng ardal Caerdydd ac etholaeth yr Aelod, ac eithrio costau teithio cymudo rheolaidd.

## 5.6 Teithio arall gan staff cymorth yr Aelodau

5.6.1 Caiff Aelod hawlio am gostau teithio ar gyfer staff cymorth nad ydynt yn dod o dan adran 5.5, ar yr amod bod y teithio at ddiben cefnogi'r Aelod i gyflawni ei ddyletswyddau.

5.6.2 Mae adrannau 5.1 a 5.2 (gan gynnwys y symiau perthnasol a nodir yn Rhan 5 o Atodiad A ar gyfer adrannau 5.1 a 5.2) yn gymwys i hawliadau o dan adran 5.6.1 yn yr un modd ag y maent yn gymwys i deithio gan Aelod.

5.6.3 Bydd costau o dan yr adran hon yn cael eu didynnu o'r gyllideb sydd ar gael i Aelodau o dan adran 7.2.1.

## 5.7 Teithio gan staff cymorth Grwpiau yn y Senedd

5.7.1 Gall arweinydd Grŵp yn y Senedd hawlio costau teithio staff cymorth, lle mae'r teithio at ddiben cefnogi gweithgaredd sy'n dod o fewn Diben Pennod 8.

5.7.2 Mae adrannau 5.1 a 5.2 (gan gynnwys y symiau perthnasol a nodir yn Rhan 5 o Atodiad A ar gyfer adrannau 5.1 a 5.2) yn gymwys i hawliadau o dan adran 5.7.1 yn yr un modd ag y maent yn gymwys i deithio gan Aelod.

5.7.3 Bydd costau o dan yr adran hon yn cael eu didynnu o'r gyllideb sydd ar gael i Grwpiau yn y Senedd o dan adran 8.1.1.

## 5.8 Hawliadau o dan y Bennod hon

5.8.1 Bydd costau o dan adrannau 5.1 i 5.5 yn cael eu talu o dan y Penderfyniad hwn ac ni fyddant yn cael eu didynnu o unrhyw gyllideb benodol sydd ar gael i Aelodau.

5.8.2 Nid oes rhaid i hawliadau am filltiroedd

# 6. Gwaith Etholaethol

## Diben

Diben y Bennod hon yw caniatáu i Aelodau hawlio am gostau sy'n ymwneud â gweithio yn eu hetholaethau, a'u cynrychioli. Mae'n cynnwys ymgysylltu ag etholwyr, cefnogaeth ar gyfer ymchwil a datblygu polisi, a chostau sy'n ymwneud â safleoedd a ddefnyddir i gyflawni dyletswyddau'r Senedd (h.y. safleoedd etholaethol) lle mae'r Aelodau'n dewis eu cael. Mae hawliadau sy'n ymwneud â theithio a staffio wedi'u nodi ym Mhenodau 5 a 7.

## 6.1. Cyllideb gwaith etholaethol

6.1.1 Gall Aelod hawlio hyd at y swm perthnasol a nodir yn Rhan 6 o Atodiad A am gostau yn ymwneud â[8]:

(a) rhedeg safleoedd etholaethol;
(b) ymgysylltu ag etholwyr;
(c) cael gwasanaethau ar gyfer darn penodol o waith am gyfnod penodol sy'n ymwneud â:
(i) ymchwil i ddatblygu polisïau, craffu ar bolisïau, deddfwriaeth a chyllid;
(ii) archwilio materion sydd o bwys i etholwyr; neu
(iii) cyfathrebu ac ymgysylltu.

## 6.2 Hawliadau sy'n ymwneud â safleoedd etholaethol

6.2.1 Ni chaiff Aelod hawlio o dan adran 6.1.1(a) am gostau sy'n ymwneud â:

(a) safleoedd etholaethol sy'n gartref iddynt neu nad ydynt yn eu hetholaeth;
(b) defnyddio safleoedd etholaethol (neu ran o safle etholaeth) sy'n cael ei rentu gan aelod o'r teulu neu gydweithiwr busnes;

[8] Atgoffir yr Aelodau am y Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd, yn benodol Rheolau 7 – Trin etholwyr yn gyfartal wrth ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn ac 8 – Cyfathrebu ac ymgysylltu ag etholwyr gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn
https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/cod-ymddygiad/rheolau-a-chanllawiau-ar-ddefnyddio-adnoddau-r-senedd/

(c) morgais.

6.2.2 Ni chaiff Aelod sy'n rhentu safle etholaeth hawlio o dan adran 6.1.1(a) am gostau'r safle oni bai:

(a) bod yr Aelod, cyn ymrwymo i'r cytundeb i rentu'r safle, wedi hysbysu Comisiwn y Senedd o'r cytundeb arfaethedig;
(b) bod cynghorydd cymwys wedi cynghori'r Aelod bod y rhent yn rhesymol;
(c) bod yr Aelod wedi derbyn cyngor cyfreithiol bod y cytundeb i rentu yn addas ar gyfer yr Aelod;
(d) bod copi wedi'i lofnodi o'r cytundeb i rentu wedi'i roi i Gomisiwn y Senedd.

6.2.3 Ni chaiff Aelod sy'n isosod safle etholaethol i unrhyw berson neu sefydliad hawlio o dan adran 6.1.1(a) am gostau'r safle oni bai:

(a) bod yr Aelod, cyn ymrwymo i'r isosod sy'n rhan o'r safle, wedi hysbysu Comisiwn y Senedd o'r cytundeb arfaethedig;
(b) bod cynghorydd cymwys wedi cynghori'r Aelod bod y rhent a delir o dan yr isosod yn rhesymol;
(c) bod copi wedi'i lofnodi o'r isosod i rentu wedi'i roi i Gomisiwn y Senedd.

6.2.4 Pan fydd Aelod yn isosod rhan o'i safle etholaethol i unrhyw berson neu sefydliad, dim ond mewn perthynas â'r gwahaniaeth rhwng swm y rhent a delir gan yr Aelod a swm y rhent a dderbynnir gan yr Aelod gan y person neu'r sefydliad arall y caiff yr Aelod hawlio rhent o dan adran 6.1.1(a).

6.2.5 Gall hawliad o dan adran 6.1.1(a) gynnwys hawliad am gostau cael cyngor o dan adrannau 6.2.2(b), 6.2.2(c) a 6.2.3(b).

6.2.6 Yn adran 6.2.1(b), ystyr "aelod o'r teulu" yw'r hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 3.2(i).

## 6.3 Sefydlu neu adnewyddu safle etholaethol

6.3.1 Rhaid i Aelodau sicrhau bod eu safle etholaethol yn addas ar gyfer eu hanghenion fel Aelod.

6.3.2

(a) Gall Aelod sy'n sefydlu safle etholaethol newydd (yn ogystal â hawlio o dan adran 6.1) hawlio hyd at y swm perthnasol a bennir yn Rhan 6 o Atodiad A am gostau sy'n ymwneud â sefydlu'r safle;

(b) gall Aelod sy'n dychwelyd ac sy'n cadw safle etholaethol sy'n bodoli eisoes (yn ogystal â hawlio o dan adran 6.1) hawlio hyd at y swm perthnasol a bennir yn Rhan 6 o Atodiad A am gostau sy'n gysylltiedig ag adnewyddu'r safle;

ond ni chaiff Aelod hawlio o dan adran 6.3.1(a) a (b).

6.3.3 Rhaid gwneud hawliad o dan adran 6.3.2(a) cyn diwedd y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y cafodd yr Aelod ei ethol ynddi.

6.3.4 Rhaid gwneud hawliad o dan adran 6.3.2(b) cyn 1 Ebrill 2027.

## 6.4 Costau a rennir

6.4.1 Pan fydd Aelod yn hawlio o dan adran 6.1 mewn perthynas â:

(a) safle sy'n cael ei rannu gydag un neu fwy o Aelodau eraill;
(b) nwyddau neu wasanaethau a gomisiynir ar y cyd ag un neu fwy o Aelodau eraill;

dim ond am eu cyfran o'r costau y gall yr Aelod hawlio.

## 6.5 Dychwelyd eitemau nad oes eu hangen mwyach

6.5.1 Pan fo hawliad o dan adran 6.1 yn ymwneud ag eitem sy'n parhau i fod yn eiddo i Gomisiwn y Senedd, rhaid dychwelyd yr eitem i Gomisiwn y Senedd pan nad oes ei hangen mwyach ar yr Aelod i gyflawni ei ddyletswyddau. Bydd gwerth unrhyw eitem na ddychwelwyd yn cael ei wrthbwyso yn erbyn unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Aelod o dan y Penderfyniad hwn.

## 6.6 Diogelwch

6.6.1 Gall Aelod hawlio costau sy'n ymwneud â mesurau diogelwch gwell lle mae'r mesurau wedi'u hargymell gan Gomisiwn y Senedd.

6.6.2 Bydd y costau hyn yn cael eu talu o dan y Penderfyniad hwn ac ni fyddant yn cael eu didynnu o'r gyllideb sydd ar gael o dan adran 6.1.

## 6.7 Iechyd a diogelwch

6.7.1 Gall Aelod hawlio am gostau sy'n ymwneud â chymryd mesurau iechyd a diogelwch.

6.7.2 Caiff Aelod wneud hawliad sydd dros £250 o dan adran 6.7.1 mewn perthynas â mesur iechyd a diogelwch sydd wedi'i argymell gan berson cymwys yn unig.

6.7.3 Yn yr adran hon:

mae “mesur iechyd a diogelwch” yn ymwneud ag unrhyw fesur y mae Aelod wedi'i nodi fel rhywbeth sy'n ofynnol o ganlyniad i asesiad risg iechyd a diogelwch, gan gynnwys asesiad Offer Sgrin Arddangos, a gynhaliwyd yn unol â chyfraith iechyd a diogelwch;

Mae “person cymwys” yn golygu person sydd â’r sgiliau, y wybodaeth a’r profiad i allu adnabod peryglon a helpu i roi rheolaethau synhwyrol ar waith i amddiffyn gweithwyr ac eraill rhag niwed, ac sydd wedi cynorthwyo’r Aelod mewn perthynas â mesur iechyd a diogelwch.

6.7.4 Bydd y costau hyn yn cael eu talu o dan y Penderfyniad hwn ac ni fyddant yn cael eu didynnu o’r gyllideb sydd ar gael o dan adran 6.1.

## 6.8 Trosglwyddo rhwng cyllidebau

6.8.1 Caiff Aelod (lle bo digon o arian ar gael) drosglwyddo hyd at 50% o'r swm a bennir yn Atodiad A sy'n ymwneud ag adran 6.1 (“y Gyllideb Gwaith Etholaethol”):

(a) Y gyllideb sydd ar gael o dan adran 7.2.1;
(b) o'r gyllideb staffio sydd ar gael i’r Aelod o dan adran 7.2.1 i Gyllideb Gwaith yr Etholaeth.

6.8.2 Caiff Aelod, mewn amgylchiadau eithriadol a chyda chymeradwyaeth Comisiwn y Senedd, drosglwyddo hyd at 25% o Gyllideb Gwaith Etholaethol o Gyllideb Gwaith Etholaethol y flwyddyn ganlynol i Gyllideb Gwaith Etholaethol y flwyddyn gyfredol, a bydd unrhyw swm a drosglwyddir yn cael ei ddidynnu o gyllideb Gwaith Etholaethol y flwyddyn ganlynol. Ond ni chaniateir trosglwyddo unrhyw swm o’r fath ar neu ar ôl 1 Ebrill y flwyddyn ariannol sy'n rhagflaenu'r flwyddyn ariannol y bwriedir cynnal etholiad Senedd ynddi.

6.8.3 Gall Aelod drosglwyddo rhan o Gyllideb Gwaith yr Etholaethol i Grŵp Senedd y mae'n perthyn iddo, fel y gall Grŵp yn y Senedd gael gwasanaethau o dan adran 8.1.1(c).

# 7. Staff cymorth

## Diben

Diben y Bennod hon yw caniatáu i Aelodau hawlio costau cyflogi staff cymorth. Mae'r Bennod, hefyd, yn rhoi fframwaith i Aelodau sy'n rhaid ei ddefnyddio i gyflogi staff cymorth os yw eu cyflogau, eu costau cyflogaeth, teithio a chynhaliaeth cysylltiedig, a'r hyn sydd ganddynt yr hawl iddo, i'w hariannu o dan Penderfyniad hwn.

## 7.1 Penodi a chyflogi staff cymorth

7.1.1 Er mwyn hawlio o dan y Bennod hon, mae'n rhaid i Aelod gymryd y camau a ganlyn:

(a) penodi a chyflogi staff cymorth yn unol â'r Fframwaith Dosbarthu Swyddi ("y Fframwaith");[9]

(b) cyflogi staff cymorth o dan gontract cyflogaeth safonol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd[10], gan gynnwys y telerau a nodir yn Atodiad B;

(c) peidio â chyflogi aelod o deulu'r Aelod fel staff cymorth;

(d) sicrhau bod contractau cyflogaeth ar gyfer staff cymorth sy'n hirach na 6 mis yn destun proses recriwtio agored a theg;

(e) peidio â chyflogi staff cymorth ar gontractau tymor penodol am fwy na 18 mis;

(f) pan fydd Aelod yn darparu lleoliad i intern o fwy na 4 wythnos, dylid trin yr intern fel staff cymorth a rhoi'r intern ar gontract tymor penodol.

## 7.2 Cyflogau, llety a theithio ar gyfer staff cymorth

7.2.1 Gall Aelod hawlio hyd at y swm perthnasol a bennir yn Atodiad A am gostau sy'n ymwneud â chyflogi staff cymorth.

[9] Staff Cymorth a Staff Grŵp Aelodau o'r Senedd - Fframwaith Dosbarthu Swyddi - https://bwrddtaliadau.cymru/media/5uthngu1/final-job-classification-framework-senedd-cy.pdf

[10] Bydd linc i'r contract yn cael ei mewnosod pan gyhoeddir y Penderfyniad terfynol ddiwedd mis Mawrth.

7.2.2 Bydd yr ystodau cyflog a’r bandiau a nodir yn Rhan 7 o'r Atodiad yn berthnasol i staff cymorth (ond gweler adran 7.2.4).

7.2.3 Pan fydd aelod o staff cymorth yn dechrau gweithio ar unrhyw fand penodol, bydd cyflog yr aelod o staff cymorth, fel arfer, yn dechrau ar bwynt cyflog 1. Fodd bynnag, gall Aelod benderfynu y dylai cyflog yr aelod o staff cymorth ddechrau ar bwynt cyflog uwch os byddai gwneud hynny'n adlewyrchu profiad a chymhwysedd yr aelod o staff cymorth.

7.2.4 Bydd cyflogau staff cymorth yn cael eu haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol ag ASHE Cymru. Fodd bynnag, bydd staff cymorth a oedd ar bwynt cyflog uchaf Band 3 ar ddiwedd y Chweched Senedd, ac sy'n parhau i gael eu cyflogi ar bwynt cyflog uchaf Band 3 yn y Seithfed Senedd, a chan yr un Aelod, yn aros ar bwynt cyflog uchaf Band 3 ar ddiwedd y Chweched Senedd (£35,223). Bydd hyn am gyfnod o ddwy flynedd, neu hyd nes bod pwynt cyflog uchaf Band 3 yn y Seithfed Senedd yn fwy na phwynt cyflog uchaf Band 3 ar ddiwedd y Chweched Senedd (pa un bynnag sydd gyntaf).

7.2.5 Pan fo'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a gyhoeddir gan y Living Wage Foundation, yn fwy nag unrhyw bwynt cyflog yn yr ystodau cyflog a nodir yn Rhan 7 o Atodiad A, dylid trin y Cyflog Byw Gwirioneddol fel y pwynt cyflog hwnnw o ddiwrnod cyntaf y mis yn dilyn y cyhoeddiad a hyd nes y bydd cyflog yr aelod perthnasol o staff cymorth yn fwy na'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

7.2.6 Bydd cyfraniadau Yswiriant Gwladol staff cymorth yn cael eu talu o dan y Penderfyniad hwn, ac ni fyddant yn cael eu didynnu o'r gyllideb staffio sydd ar gael o dan adran 7.2.1.

7.2.7 Bydd cyflogau staff cymorth yn cael eu talu'n fisol mewn ôl-daliadau ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis, a gall staff cymorth ofyn am un taliad cyflog ymlaen llaw fesul blwyddyn ariannol.

7.2.8 Ni chaniateir talu bonysau staff cymorth o dan y Penderfyniad hwn

## 7.3 Cynnydd drwy’r pwyntiau cyflog

7.3.1 Yn amodol ar adran 7.3.2, bydd staff cymorth yn symud ymlaen i'r pwynt cyflog nesaf ar yr un dyddiad bob blwyddyn (sef y dyddiad pan ddechreuodd y gyflogaeth), mewn band penodol (hyd nes iddynt gyrraedd y pwynt cyflog uchaf ar gyfer y band hwnnw).

7.3.2 Pan gyflogir aelod o staff cymorth ar bwynt cyflog 1 o unrhyw fand penodol a bod yr aelod o staff cymorth yn dangos cymhwysedd a pherfformiad boddhaol ar ddiwedd y cyfnod prawf, caiff Aelod symud yr aelod o staff cymorth i bwynt cyflog 2 cyn y dyddiad a grybwyllir yn adran 7.3.1.

## 7.4 Cyfraniadau pensiwn staff cymorth

7.4.1. Gwneir cyfraniad o 10% i gynllun pensiwn personol aelod o staff cymorth y mae cyflog yr aelod o staff cymorth yn cael ei hawlio o dan adran 7.2.1.

7.4.2 Gwneir cyfraniad pellach o 3% i bensiwn personol aelod o staff cymorth, pan mae'r canlynol yn gymwys:

(a) mae cyflog yr aelod o staff cymorth cael ei hawlio o dan adran 7.2.1, a hefyd
(b) mae'n dewis gwneud cyfraniad personol at ei gynllun pensiwn personol.

7.4.3 Yn yr adran hon, mae cyfraniad o 10% neu 3% yn golygu cyfraniad o 10% neu 3% o'r cyflog gwirioneddol a delir i'r aelod o staff cymorth.

7.4.4 Ni fydd cyfraniadau a wneir o dan yr adran hon yn cael eu didynnu o unrhyw gyllideb benodol sydd ar gael i Aelodau.

## 7.5 Yswiriant bywyd

7.5.1 Os oedd aelod o staff cymorth, ar adeg marwolaeth yr aelod o staff cymorth, yn cael ei gyflogi gan Aelod, gwneir taliad yswiriant bywyd yn unol â'r Ddarpariaeth Yswiriant Bywyd ar gyfer Staff Cymorth yr Aelodau.[11].

7.5.2 Bydd y taliad ddwywaith y cyflog terfynol yn y flwyddyn olaf o gyflogaeth neu, os yw'n uwch, y flwyddyn cyn hynny.

7.5.3 Pan mae staff cymorth wedi gweithio llai na blwyddyn galendr, bydd y taliad yn seiliedig ar y cyflog a dalwyd hyd at y pwynt hwnnw.

## 7.6 Amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus

7.6.1 Pan fydd aelod o staff cymorth yn cymryd amser i ffwrdd â thâl ar gyfer y canlynol:

(a) gwasanaeth rheithgor, caiff Aelod hawlio cyflog yr aelod o staff cymorth o dan adran 7.2.1 am bob diwrnod y mae'n ofynnol i'r aelod o staff cymorth fynd i'r llys;

[11] Bydd linc i'r Ddarpariaeth Yswiriant Bywyd ar gyfer Staff Cymorth yr Aelodau yn cael ei mewnosod pan gyhoeddir y Penderfyniad terfynol ddiwedd mis Mawrth.

(b) hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog, caiff Aelod hawlio cyflog yr aelod o staff cymorth o dan adran 7.2.1 am bob diwrnod y mae'n mynd i'r hyfforddiant, yn amodol ar uchafswm o 15 diwrnod bob blwyddyn ariannol;

(c) dyletswyddau cyhoeddus di-dâl, caiff Aelod hawlio cyflog yr aelod o staff cymorth o dan adran 7.2.1 am bob diwrnod y mae'n cyflawni'r dyletswyddau, yn amodol ar uchafswm o 10 diwrnod bob blwyddyn ariannol.

7.6.2 Rhaid i staff cymorth gymryd amser i ffwrdd heb dâl ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus â thâl (ac eithrio hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog), sy'n golygu na chaiff Aelod hawlio cyflog y staff cymorth o dan adran 7.2.1 am unrhyw amser y mae'n cyflawni'r dyletswyddau.[12] [13]

## 7.7 Cyflenwi yn ystod absenoldebau staff cymorth

7.7.1 Mae'r adran hon yn berthnasol pan fo'r canlynol yn gymwys ar gyfer aelod o staff cymorth:

(a) mae'n absennol o'r gwaith oherwydd unrhyw un o'r canlynol:

(i) Salwch am gyfnod parhaus o fwy na 2 wythnos,
(ii) absenoldeb tosturiol am gyfnod parhaus o fwy na 2 wythnos,
(iii) absenoldeb rhiant (h.y. absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir neu absenoldeb mabwysiadu), neu
(iv) amser i ffwrdd â thâl ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus a gymerwyd yn unol ag adran 7.7.1, a

(b) bod cyflog yr aelod o staff cymorth yn parhau i gael ei hawlio o dan adran 7.2.1.

7.7.2 Gall Aelod hawlio am gostau cyflogi staff cymorth newydd, neu addasu trefniadau gyda staff cymorth presennol, i gyflenwi ar gyfer yr aelod o staff cymorth sy'n absennol.

7.7.3 Pan fo'r aelod o staff cymorth yn absennol oherwydd y canlynol:

(a) salwch, yr uchafswm y gellir ei hawlio o dan adran 7.7.2 yw swm sy'n hafal i 6 mis o gyflog llawn a 6 mis o hanner cyflog yr aelod staff cymorth sy'n absennol;

[12] Gall Aelod hawlio o dan adran 7.7 ar gyfer costau staffio lle mae staff cymorth yn cymryd amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus â thâl.

[13] Mae enghreifftiau o ddyletswyddau cyhoeddus yn yr adran hon yn cynnwys y rhai a nodir gan Lywodraeth y DU https://www.gov.uk/time-off-work-public-duties

(b) absenoldeb rhiant, yr uchafswm y gellir ei hawlio o dan adran 7.7.2 yw swm sy'n hafal i 26 wythnos o gyflog yr aelod staff cymorth sy'n absennol;
(c) amser i ffwrdd â thâl ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus, yr uchafswm y gellir ei hawlio o dan adran 7.7.2 yw swm sy'n hafal i'r cyflog gros sy'n daladwy i'r aelod o staff cymorth yn ystod yr absenoldeb.

7.7.4 Pan fo aelod o staff cymorth yn absennol oherwydd salwch neu absenoldeb rhiant, rhaid i'r Aelod ddarparu tystiolaeth o'r absenoldeb i Gomisiwn y Senedd.

7.7.5 Bydd costau o dan yr adran hon yn cael eu talu o dan y Penderfyniad hwn, ac ni fyddant yn cael eu didynnu o'r gyllideb sydd ar gael o dan adran 7.2.1.

## 7.8 Dileu swydd staff cymorth

7.8.1 Pan fydd person yn peidio â bod yn Aelod, gall y person hawlio am gost dileu swydd i staff cymorth cymwys.

7.8.2 Pan fydd Aelod yn ailstrwythuro cefnogaeth staffio’r Aelod yn ystod tymor Senedd, gall hawlio am gost taliadau dileu swydd i staff cymwys.

7.8.3 Bydd aelod o staff cymorth yn gymwys i gael taliad dileu swydd os, ar yr adeg y rhoddodd y gorau i fod yn gyflogedig gan yr Aelod, yr oedd wedi bod yn gyflogedig gan yr Aelod (a chyflog yr aelod o staff cymorth yn cael ei dalu o dan Benderfyniad y Bwrdd) am gyfnod parhaus o ddwy flynedd, o leiaf.

7.8.4 Bydd taliadau dileu swydd yn cael eu cyfrifo ar sail hawl statudol, wedi'i huwchraddio 100%.

7.8.5 Bydd costau o dan y canlynol:

(a) adran 7.8.1, yn cael eu talu o dan y Penderfyniad hwn ac ni chânt eu didynnu o'r gyllideb sydd ar gael o dan adran 7.2.1;
(b) adran 7.8.2, yn cael ei didynnu o'r gyllideb sydd ar gael o dan adran 7.2.1.

## 7.9 Llety dros nos

7.9.1 Gall Aelod hawlio am gostau llety dros nos i staff cymorth o dan adran 4.9. Bydd costau o'r fath yn cael eu didynnu o'r gyllideb sydd ar gael o dan adran 7.2.1.

## 7.10 Teithio

7.10.1 Gall Aelod hawlio costau teithio staff cymorth o dan adran 5.6. Bydd costau o'r fath yn cael eu didynnu o'r gyllideb sydd ar gael o dan adran 7.2.1.

## 7.11 Cynhaliaeth

7.11.1 Gall Aelod hawlio am gostau cynhaliaeth staff cymorth o dan adran 4.9. Bydd costau o'r fath yn cael eu didynnu o'r gyllideb sydd ar gael i'r Aelodau o dan adran 7.2.1.

## 7.12 Trosglwyddo rhwng cyllidebau

7.12.1 Caiff Aelod (lle bo digon o arian ar gael) drosglwyddo hyd at 50% o'r swm a bennir yn Atodiad A sy'n ymwneud ag adran [6.1] ("Cyllideb Gwaith yr Etholaeth") i'r mannau canlynol:

(a) y gyllideb sydd ar gael o dan adran 7.2.1;

(b) o'r gyllideb staffio sydd ar gael i'r Aelod o dan adran 7.2.1 i Gyllideb Gwaith yr Etholaeth.

# 8. Cymorth i Grwpiau

## Diben

Diben y Bennod hon yw darparu adnoddau i Grwpiau'r Senedd ar gyfer gweinyddiaeth ganolog a chydlynu, cefnogaeth ar gyfer gwaith craffu, ymchwil a datblygu polisïau sy'n gysylltiedig â dyletswyddau Aelodau, cefnogaeth gyda chyfathrebu, cefnogaeth fugeiliol a llesiant, offer a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys costau sy'n ymwneud â staffio, teithio, gwasanaethau a gomisiynir yn allanol, yn ogystal â gweithredu swyddfa grŵp.

## 8.1 Cyllideb Grwpiau'r Senedd

8.1.1 Gall arweinydd Grŵp yn y Senedd hawlio hyd at y swm perthnasol yn Rhan 8 o Atodiad A am gostau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- (a) cyflogi staff cymorth;
- (b) offer swyddfa a deunydd ysgrifennu;
- (c) cael gwasanaethau ar gyfer darn penodol o waith am gyfnod penodol sy'n ymwneud â'r canlynol:
  - (i) ymchwil i ddatblygu polisïau, craffu ar bolisïau, deddfwriaeth a chyllid;
  - (ii) archwilio materion o bwys i etholwyr;
  - (iii) cymorth gyda llesiant;
- (d) llety dros nos a theithio ar gyfer staff cymorth.

8.1.2 Mae arweinydd Grŵp yn y Senedd yn atebol am sicrhau bod unrhyw gostau sy'n ymwneud ag adran 8.1.1(c) yn parhau i fod yn gyson â'r egwyddorion a nodir ym Mhennod 1, y Rheolau a'r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd.[14] a rheolau presennol CThEF ynghylch gweithio oddi ar y gyflogres[15].

8.1.3 Pan fo costau sy'n ymwneud ag adran 8.1.1(c) yn uwch na'r trothwy dyfynbris a nodir yn adran 1.5.2, rhaid cyflwyno datganiad yn nodi pwrpas y gwaith a pham na allai staff cymorth Grŵp y Senedd ei wneud ochr yn ochr â'r hawliad am ad-daliad.

[14] https://senedd.cymru/media/3xrgydjn/2022-rheolau-ao.pdf

[15] https://www.gov.uk/guidance/understanding-off-payroll-working-ir35

8.1.4 Ni chaiff arweinydd Grŵp yn y Senedd hawlio o dan adran 8.1.1 am gostau sy'n ymwneud â rhent neu forgais.

8.1.5 Bydd y Swm Fesul Aelod a nodir yn Rhan 8 o Atodiad A (ac a ddefnyddir i gyfrifo'r gyllideb sydd ar gael o dan adran 8.1.1) yn cael ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol ag ASHE Cymru.

## 8.2 Penodi a chyflogi staff cymorth

8.2.1 Mae adran 7.1.1 yn berthnasol i arweinwyr Grwpiau’r Senedd yn yr un modd ag y mae’n berthnasol i Aelodau.

## 8.3 Cyflogau staff cymorth, cynnydd trwy bwyntiau cyflog, ac ati

8.3.1 Bydd yr ystodau cyflog a nodir yn Rhan 8 o Atodiad A yn berthnasol i staff cymorth.

8.3.2 Mae adrannau 7.2.3 i 7.6 yn berthnasol i arweinwyr Grwpiau’r Senedd a’u staff cymorth yn yr un modd ag y maent yn berthnasol i Aelodau. At hynny, lle mae'r adrannau o dan sylw yn cyfeirio at y canlynol:

(a) “adran 7.2.1” dylid darllen y cyfeiriadau, at ddibenion y Bennod hon, fel cyfeiriadau at adran 8.1.1;

(b) yr ystodau cyflog a’r bandiau a nodir yn Rhan 7 o Atodiad A, dylid darllen y cyfeiriad, at ddibenion y Bennod hon, fel cyfeiriadau at yr ystodau cyflog a’r bandiau a nodir yn Rhan 8 o Atodiad A.

## 8.4 Llety dros nos

8.4.1 Gall arweinydd Grŵp yn y Senedd hawlio costau llety dros nos i staff cymorth o dan adran 4.9. Bydd costau o'r fath yn cael eu didynnu o'r gyllideb sydd ar gael o dan adran 8.1.1.

## 8.5 Teithio

8.5.1 Gall arweinydd Grŵp yn y Senedd hawlio costau teithio staff cymorth o dan adran 5.7. Bydd costau o'r fath yn cael eu didynnu o'r gyllideb sydd ar gael o dan adran 8.1.1.

## 8.6 Cynhaliaeth

8.6.1 Gall arweinydd Grŵp yn y Senedd hawlio costau cynhaliaeth staff cymorth o dan adran 4.9. Bydd costau o'r fath yn cael eu didynnu o'r gyllideb sydd ar gael o dan adran 8.1.1.

## 8.7 Dileu swydd staff cymorth

8.7.1 Pan fo swydd staff cymorth cymwys yn cael ei dileu oherwydd y canlynol:

(a) bod hawl Grŵp yn y Senedd i gefnogaeth ar gyfer Grwpiau'r Senedd o dan adran 8.1.1 yn cael ei lleihau neu ei dileu;
(b) bod Grŵp yn y Senedd yn ailstrwythuro ei staff cymorth yn ystod tymor Senedd;
(c) mae newid yn arweinydd Grŵp yn y Senedd;

gellir talu taliad dileu swydd o dan y Penderfyniad hwn.

8.7.2 Bydd aelod o staff cymorth yn gymwys i gael taliad dileu swydd os, ar yr adeg y dilëwyd y swydd, roedd wedi bod yn gyflogedig gan y Grŵp yn y Senedd (a chyflog yr aelod o staff cymorth wedi'i dalu o dan benderfyniad y Bwrdd) am gyfnod parhaus o ddwy flynedd, o leiaf.

8.7.3 Bydd taliadau dileu swydd yn cael eu cyfrifo ar sail yr hawl statudol, wedi'i huwchraddio 100%.

8.7.4 Bydd taliadau dileu swydd o dan y canlynol:

(a) adran 8.7.1(a), yn cael eu talu o dan y Penderfyniad hwn, ac ni chânt eu didynnu o gyllideb Grŵp y Senedd sydd ar gael o dan adran 8.1.1;
(b) bydd adran 8.7.1(b) neu (c) yn cael ei didynnu o gyllideb Grŵp y Senedd sydd ar gael o dan adran 8.1.1.

# 9. Aelodau sy'n gadael eu swyddi

## Diben

Diben y Bennod hon yw gwneud darpariaeth i dalu'r costau amrywiol sy'n codi pan fydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dirwyn ymrwymiadau cytundebol i ben a chau gwaith achos sydd ar y gweill, taliad dirwyn i ben ac ailsefydlu, rhoi sicrwydd i ymgeiswyr posibl ynghylch eu dyfodol, a thaliadau i Aelodau sy'n mynd yn sâl.

## 9.1 Costau dirwyn i ben

9.1.1 Pan fydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod, gall hawlio costau sy'n ymwneud â chwblhau gwaith a oedd ar y gweill ar yr adeg y peidiodd â bod yn Aelod.

9.1.2 Bydd y swm y gellir ei hawlio yn cael ei nodi mewn cynllun dirwyn i ben y cytunir arno rhwng y cyn-Aelod a Chomisiwn y Senedd, a chaiff ei gyfrifo drwy gymhwyso'r cyllidebau sydd ar gael o dan Penodau 4, 6 a 7 ar sail pro-rata yn ystod y cyfnod dirwyn i ben.

9.1.3 Y cyfnod dirwyn i ben yw'r cyfnod y cytunwyd arno rhwng Comisiwn y Senedd a'r cyn-Aelod, yn amodol ar uchafswm o 3 mis (oni bai bod y cyn-Aelod wedi peidio â bod yn Aelod oherwydd i’r Aelod farw, ac yn yr achos hwnnw mae'r cyfnod dirwyn i ben yn gyfnod rhesymol y cytunwyd arno rhwng Comisiwn y Senedd a chynrychiolwyr personol y cyn-Aelod).

## 9.2 Taliad dirwyn i ben

9.2.1 Gall person sy'n peidio â bod yn Aelod ar ôl diddymu'r Senedd, oherwydd nad oedd yn ymgeisydd i'w ethol i'r Senedd newydd, hawlio taliad dirwyn i ben sy'n cyfateb i ddau fis o gyflog.

9.2.2 Gall person sy'n peidio â bod yn Aelod ar y diwrnod pleidleisio, oherwydd fod yr Aelod yn ymgeisydd yn yr etholiad i'r Senedd newydd ond na chafodd ei ethol, hawlio taliad dirwyn i ben sy'n cyfateb i dri mis o gyflog.

## 9.3 Taliadau ymaddasu

9.3.1 Gall person a oedd yn Aelod ac yn ymgeisydd yn yr etholiad i'r Senedd newydd yn union cyn diddymu'r Senedd, ond na ail-etholwyd yr Aelod, hawlio taliad ymaddasu o dan adran 9.3.2 a, lle y bo’n gymwys, daliad ymaddasu swydd ychwanegol o dan adran 9.3.3.

9.3.2 Gall yr Aelod hawlio taliad ymaddasu o gyflog mis am bob cyfnod o 12 mis olynol y bu'n gwasanaethu fel Aelod, yn amodol ar uchafswm sy'n gyfwerth â 6 mis o gyflog.

9.3.3 Os oedd yr Aelod yn dal swydd ychwanegol (a nodir yn adran 2.1.2) yn ystod y cyfnod y bu'n gwasanaethu fel Aelod, gall hawlio taliad ymaddasu swydd ychwanegol sy'n cyfateb i'r swm a dalwyd i'r Aelod am ddal y swydd ychwanegol yn y 3 mis cyn rhoi'r gorau i ddal y swydd ychwanegol. Os bu gan Aelod fwy nag un swydd ychwanegol yn ystod y cyfnod y bu'n gwasanaethu fel Aelod, dim ond un taliad ymaddasu swydd ychwanegol a delir (yn seiliedig ar y swydd ychwanegol â'r cyflog uwch/uchaf a ddelir gan yr Aelod).

9.3.4 Pan fo Aelod wedi cael taliad ymaddasu, neu daliad ymaddasu swydd ychwanegol, o dan Benderfyniad blaenorol, mae'r cyfeiriad at "wedi gwasanaethu fel Aelod" yn adrannau 9.3.2 a 9.3.3 yn gyfeiriad at wasanaethu fel Aelod ers cael y taliad ymaddasu neu'r taliad ymaddasu swydd ychwanegol blaenorol.

9.3.5 Bydd taliad ymaddasu neu daliad ymaddasu swydd ychwanegol Aelod, y mae taliad cyflog yr Aelod wedi gostwng yn unol ag adran 21 o'r Ddeddf, yn cael ei gyfrifo ar sail cyflog yr Aelod neu swydd ychwanegol heb ei ostwng.

## 9.4 Taliad am afiechyd

9.4.1 Gall person sy'n peidio â bod yn Aelod oherwydd afiechyd hawlio taliad afiechyd.

9.4.2 Cyfrifir y swm y gellir ei hawlio ar yr un sail ag y cyfrifir taliad ymaddasu o dan adran 9.3.2 (ac eithrio bod cyfeiriad yn adran 9.5 at yn union cyn y diddymiad i'w ddarllen fel cyfeiriad at y mis olaf cyn i'r person beidio â bod yn Aelod).

9.4.3 Ni chaiff person sy'n cael taliad o dan yr adran hon hawlio o dan adran 9.3 yn dilyn diddymiad nesaf y Senedd.

9.4.4 Gall Comisiwn y Senedd ofyn am dystiolaeth (er enghraifft, nodyn meddygol neu asesiad proffesiynol) i gefnogi hawliadau a wneir o dan yr adran hon. Gellir hawlio costau cael tystiolaeth o'r fath o dan yr adran hon.

## 9.5 Cyflog misol

9.5.1 Lle mae'r Bennod hon yn pennu taliad drwy gyfeirio at gyflog misol, cyfrifir y taliad ar sail y cyflog yr oedd Aelod yn gymwys i'w gael o dan adran 2.1.1 (a) yn syth cyn y diddymiad.

# ATODIAD A

## CYFLOGAU A CHYLLIDEBAU AR GYFER 2026-27 (o 7 Mai 2026)

**At ddibenion yr ymgynghoriad: mae ffigurau 2025-26 wedi'u cynnwys mewn *italig* mewn sawl adran a bydd y rhain yn cael eu huwchraddio yn unol â ffigur Mynegai Prisiau Defnyddwyr Ionawr 2026 o ddechrau'r Seithfed Senedd.**

| **RHAN 1: CYFLOG AELOD** | |
|---|---|
| **Cyflog Aelod** | £79,817 |
| **RHAN 2: CYFLOGAU DEILIAID SWYDDI YCHWANEGOL** | |
| **Swydd Ychwanegol** | **Cyflog ychwanegol** |
| Y Prif Weinidog | £94,783 |
| Gweinidog Cymru | £44,896 |
| Y Cwnsler Cyffredinol | £44,896 |
| Dirprwy Weinidog Cymru | £26,191 |
| Y Llywydd | £51,132 |
| Dirprwy Lywydd | £26,191 |
| Comisiynydd y Senedd | £16,212 |
| Cadeirydd Pwyllgor | £16,212 |
| Aelod o'r Pwyllgor Busnes | £16,212 |
| Arweinydd Grŵp Senedd | £16,212 + £1,248 yr Aelod hyd at uchafswm o £44,896 |
| **RHAN 3: CYMORTH YCHWANEGOL** | |
| **Adran** | **Cyllideb** |
| 3.1.1 Cymorth sy'n ymwneud â rhwystrau y mae Aelodau anabl yn eu hwynebu | Cost wirioneddol (yn amodol ar y rheolau a nodir yn adran 3.1) |
| 3.1.3 Cymorth sy'n ymwneud â chyflwr meddygol byrdymor | Costau gwirioneddol (yn amodol ar y rheolau a nodir yn adran 3.1) |

| | |
|---|---|
| 3.1.4 Diwallu anghenion pobl anabl | Costau gwirioneddol (yn amodol ar y rheolau a nodir yn adran 3.1) |
| 3.2.1 Cymorth sy’n ymwneud â chyfrifoldebau gofalu | Hyd at £350 y pen y mis (ar gyfer gofal hyd at dri pherson). |
| 3.3.2 Cymorth sy'n ymwneud ag absenoldeb rhiant | Cost wirioneddol (yn amodol ar y rheolau a nodir yn adran 3.3) |
| 3.4 Diogelwch ym mhrif gartref Aelod | Costau gwirioneddol (yn amodol ar y rheolau a nodir yn adran 3.4) |
| **RHAN 4: LLETY DROS NOS** | |
| **Adran** | **Cyllideb** |
| 4.1.1 Llety dros nos yn Ardal Caerdydd | *Hyd at £702, gydag uchafswm o £117 y noson* |
| 4.3.2(a) Rhent o dan Opsiwn A | Hyd at £13,320 (yn seiliedig ar uchafswm o £1,110 y mis) |
| 4.3.3 Costau ychwanegol llety sy’n ymwneud â chyfrifoldebau gofalu | Hyd at £3,870 ar gyfer y dibynnydd cyntaf.<br>Hyd at £1,290 ar gyfer pob dibynnydd ychwanegol, hyd at uchafswm o ddau ddibynnydd ychwanegol. |
| 4.4.1 Llety dros nos o dan Opsiwn B | Hyd at £13,320, gydag uchafswm *o £117 y noson:*<br>- yn Ardal Caerdydd;<br>- y tu allan i Ardal Caerdydd lle mae’r costau'n cael eu hysgwyddo at ddiben mynychu’r Senedd (ac ar yr amod na all yr Aelod ddod o hyd i westy na llety â gwasanaeth yn Ardal Caerdydd o fewn yr uchafswm nosweithiol). |
| 4.6.1 Llety dros nos arall (o fewn y Deyrnas Unedig) | Hyd at £230 y noson yn Llundain.<br>*Hyd at £117 y noson mewn mannau eraill.* |
| 4.8.1 Cynhaliaeth | Hyd at £30 mewn unrhyw gyfnod o 24 awr |
| 4.9.1 Llety dros nos i staff cymorth | Hyd at £230 y noson yn Llundain |

| | |
|---|---|
| | *Hyd at £117 y noson mewn mannau eraill* |
| 4.9.1 Cynhaliaeth ar gyfer staff cymorth | Hyd at £30 mewn unrhyw gyfnod o 24 awr |
| **RHAN 5: TEITHIO** | |
| **Adran** | **Cyllideb** |
| **5.1.1 Teithio o fewn y Deyrnas Unedig** | |
| Car personol, beic modur neu feic | Cyfradd milltiroedd a gymeradwywyd gan Gyllid a Thollau EF yn seiliedig ar y milltiroedd a deithiwyd<br>Hefyd ychwanegiad teithwyr os ydych chi'n rhannu gydag Aelod arall, staff cymorth Aelodau neu staff Comisiwn y Senedd<br>Ynghyd ag unrhyw siwrne ddwyffordd a ganiateir (fel y'i diffinnir yn adran 5.1.2) yn seiliedig ar y milltiroedd a deithiwyd. |
| Car cwmni (gan gynnwys car o dan gynllun aberthu cyflog) | Cyfradd milltiroedd a gynghorir gan Gyllid a Thollau EF yn seiliedig ar y milltiroedd a deithiwyd<br>Ynghyd ag unrhyw siwrne ddwyffordd a ganiateir (fel y'i diffinnir yn adran 5.1.2) yn seiliedig ar y milltiroedd a deithiwyd. |
| Tacsi (oni bai nad oedd yn rhesymol teithio heblaw mewn tacsi) | Cyfradd milltiroedd a gymeradwywyd gan Gyllid a Thollau EF yn seiliedig ar y milltiroedd a deithiwyd |
| Tacsi (lle nad oedd yn rhesymol teithio heblaw mewn tacsi) | Cost wirioneddol |
| Car llogi (mewn amgylchiadau eithriadol lle cafwyd cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gomisiwn y Senedd) | Cost wirioneddol |
| Rheilffordd (dosbarth safonol) | Cost wirioneddol |
| Rheilffordd (dosbarth arall, lle mae'r Aelod wedi bodloni Comisiwn y Senedd fod | Cost wirioneddol |

| | |
|---|---|
| angen [y gellir ei ddangos] i deithio yn y ffordd hon) | |
| Cludiant awyr wedi'i amserlennu | Cost wirioneddol |
| Cludiant awyr preifat neu siartredig | Cost y daith pe bai wedi'i gwneud trwy gludiant awyr a drefnwyd |
| **5.2.1 Teithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig** | |
| Pris dwyffordd safonol | Cost wirioneddol |
| Llety | Costau llety hyd at 5 noson |
| Prydau bwyd a theithio achlysurol | Cost wirioneddol |
| **5.3.1 Teithio oherwydd cyfarfodydd Senedd heb eu trefnu** | |
| Dychwelyd i'r Deyrnas Unedig o wyliau | Cost wirioneddol |
| Ailddechrau gwyliau | Cost wirioneddol |
| **5.4.1 Teithio gan bartner neu blentyn** | |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | Cost wirioneddol |
| Car personol, beic modur neu feic | Cyfradd milltiroedd a gymeradwywyd gan Gyllid a Thollau EF yn seiliedig ar y milltiroedd a deithiwyd |
| Gyda char cwmni (gan gynnwys car a ystyrir yn gar cwmni o dan gynllun aberthu cyflog) | Cyfradd milltiroedd a gynghorir gan Gyllid a Thollau EF yn seiliedig ar y milltiroedd a deithiwyd |
| **5.5.1 Teithio achlysurol gan staff cymorth** | |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | Cost wirioneddol |
| Car personol, beic modur neu feic | Cyfradd milltiroedd a gymeradwywyd gan Gyllid a Thollau EF yn seiliedig ar y milltiroedd a deithiwyd |
| Gyda char cwmni (gan gynnwys car a ystyrir yn gar cwmni o dan gynllun aberthu cyflog) | Cyfradd milltiroedd a gynghorir gan Gyllid a Thollau EF yn seiliedig ar y milltiroedd a deithiwyd |
| 5.1 i 5.5 – Parcio | Cost wirioneddol |
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| **RHAN 6: GWAITH ETHOLAETHOL** | |
| **Adran** | **Cyllideb** |
| 6.1 Gwaith etholaethol | *Hyd at £27,430* |
| 6.3.2(a) Sefydlu safle newydd | *Hyd at £6,500* |
| 6.3.2(b) Adnewyddu safle presennol | *Hyd at £2,500* |
| 6.6 Diogelwch | Costau Gwirioneddol (yn seiliedig ar argymhellion/gofynion) |
| 6.7 Iechyd a diogelwch | Costau Gwirioneddol (yn seiliedig ar argymhellion/gofynion) |
| **RHAN 7: STAFF CYMORTH** | |
| **Adran** | **Cyllideb** |
| 7.2.1 Cyflogi staff cymorth | Hyd at £148,382 |

7.2.2 Ystodau cyflog staff cymorth (yn seiliedig ar wythnos 37 awr):

| | **Pwynt cyflog 1** | **Pwynt cyflog 2** | **Pwynt cyflog 3** | **Pwynt cyflog 4** |
|---|---|---|---|---|
| **Uwch-gynghorwr** | £42,904 | £46,988 | £51,073 | £55,159 |
| **Band 1** | £39,274 | £43,015 | £46,756 | £50,496 |
| **Band 2** | £33,233 | £36,398 | £39,563 | £42,727 |
| **Band 3*** | £26,345 | £30,109 | £33,873 | Amherthnasol |

*Staff cymorth gyda diogelwch cyflog, yn unol ag adran 7.2.4: £35,223

| | |
|---|---|
| 7.4 Cyfraniadau pensiwn staff cymorth | Cyfrifwyd yn unol ag adran 7.4 |
| 7.5 Yswiriant bywyd staff cymorth | Cyfrifwyd yn unol ag adran 7.5 |
| 7.6 Amser o'r gwaith ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus | Cyfrifwyd yn unol ag adran 7.6 |
| 7.7 Cyflenwi yn ystod absenoldebau staff cymorth | Cyfrifwyd yn unol ag adran 7.6 |
| 7.8 Dileu swydd staff cymorth | Cyfrifwyd yn unol ag adran 7.7 |

<table>
<tr><th colspan="5">RHAN 8: GRWPIAU'R SENEDD</th></tr>
<tr><th colspan="2">Adran</th><th colspan="3">Cyllideb</th></tr>
<tr><td colspan="2">8.1.1 Cyllideb Grŵp y Senedd: Grŵp y Senedd heb ei gynrychioli yn Llywodraeth Cymru</td><td colspan="3">5 Aelod Cyntaf: 100% o'r swm fesul Aelod<br>6-39 Aelod: 50% o'r swm fesul Aelod<br>40+ Aelod: 25% o'r swm fesul Aelod</td></tr>
<tr><td colspan="2">8.1.1 Cyllideb Grŵp y Senedd: Grŵp y Senedd a gynrychiolir yn Llywodraeth Cymru*</td><td colspan="3">5 Aelod Cyntaf: 25% o'r swm fesul Aelod<br>6-39 Aelod: 12.5% o'r swm fesul Aelod<br>40+ Aelod: 6.25% o'r swm fesul Aelod<br>* Ni fydd y gyllideb sydd ar gael i Grŵp y Senedd a gynrychiolir yn Llywodraeth Cymru yn gostwng o dan £171,471</td></tr>
<tr><td colspan="2">8.1.2 Swm Fesul Aelod</td><td colspan="3">£60,000</td></tr>
<tr><td colspan="5">8.3.1 Ystodau cyflog staff cymorth (yn seiliedig ar wythnos 37 awr):</td></tr>
<tr><th></th><th>Pwynt cyflog 1</th><th>Pwynt cyflog 2</th><th>Pwynt cyflog 3</th><th>Pwynt cyflog 4</th></tr>
<tr><td>Pennaeth Staff*</td><td>£51,191</td><td>£56,066</td><td>£60,941</td><td>£65,816</td></tr>
<tr><td>Uwch-gynghorwr</td><td>£42,904</td><td>£46,988</td><td>£51,073</td><td>£55,159</td></tr>
<tr><td>Band 1</td><td>£39,274</td><td>£43,015</td><td>£46,756</td><td>£50,496</td></tr>
<tr><td>Band 2</td><td>£33,233</td><td>£36,398</td><td>£39,563</td><td>£42,727</td></tr>
<tr><td>Band 3**</td><td>£26,345</td><td>£30,109</td><td>£33,873</td><td>Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="5">* Dim ond cyflog un Pennaeth Staff (sy'n cyfateb i 37 awr o amser llawn) y gellir ei hawlio o dan adran 8.1.1 ar unrhyw adeg benodol.<br>**Staff cymorth gyda diogelwch cyflog, yn unol ag adran 7.2.4: £35,223</td></tr>
<tr><td colspan="2">8.7.1 Dileu swydd staff cymorth</td><td colspan="3">Cyfrifwyd yn unol ag adran 8.7</td></tr>
</table>

| **RHAN 9: AELODAU SY'N GADAEL EU SWYDDI** | |
|---|---|
| **Adran** | **Cyllideb** |
| 9.1.2 Costau dirwyn i ben | Cyfrifwyd yn unol ag adran 9.1 |
| 9.2.1 Taliad dirwyn i ben | Cyfwerth â 2 fis o gyflog yr oedd gan Aelod hawl iddo o dan adran 2.1.1(a) yn syth cyn y diddymiad |
| 9.2.2 Taliad dirwyn i ben | Cyfwerth â 3 fis o gyflog yr oedd gan Aelod hawl iddo o dan adran 2.1.1(a) yn syth cyn y diddymiad |
| 9.3.2 a 9.3.3 Taliad ymaddasu | Cyfrifwyd yn unol ag adran 9.3 |
| 9.4.1 Taliad oherwydd salwch | Cyfrifwyd yn unol ag adran 9.4 |

# ATODIAD B

## TELERAU I'W CYNNWYS YNG NGHONTRACTAU

## CYFLOGAETH STAFF CYMORTH

| Hawliadau | Ychwanegiad |
|---|---|
| Gwyliau Blynyddol | 31 diwrnod pro-rata y flwyddyn<br>Gwyliau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr (gwyliau banc) pro rata |
| Diwrnodau Braint | 4 diwrnod pro-rata y flwyddyn, i'w bennu gan y Cyflogwr |
| Absenoldeb oherwydd salwch | 6 mis o gyflog llawn a 6 mis o hanner cyflog o fewn unrhyw gyfnod treigl o 12 mis.<br>Ni chaiff cyfnodau o absenoldeb salwch â thâl fod yn fwy na 12 mis o fewn unrhyw gyfnod o bedair blynedd. |
| Tâl Mamolaeth | Gweler adran 7.7.3(b) ac adran 8.3.2 |
| Tâl Mabwysiadu | Gweler adran 7.7.3(b) ac adran 8.3.2 |
| Tâl Rhiant a Rennir (Geni) | Gweler adran 7.7.3(b) ac adran 8.3.2 |
| Tâl Rhiant a Rennir (Mabwysiadu) | Gweler adran 7.7.3(b) ac adran 8.3.2 |
| Tâl Tadolaeth | 3 wythnos o gyflog llawn |
| Absenoldeb Tosturiol | 5 diwrnod ar gyflog llawn mewn cyfnod treigl o 12 mis. |
| Cyfnod rhybudd | Cyflogaeth 0-3 mis – 1 wythnos<br>3 mis – 5 mlynedd – 1 mis calendr.<br>5+ mlynedd – wythnos ar gyfer pob blwyddyn gyflawn o gyflogaeth barhaus hyd at uchafswm o 12 wythnos o rybudd. |
| Dileu swydd | Gweler adran 7.8 o'r Penderfyniad |
| Pensiwn | Gweler adran 7.4 o'r Penderfyniad |

| | |
|---|---|
| Yswiriant Bywyd | Gweler adran 7.5 o'r Penderfyniad |
| Amser o'r gwaith ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus | Gweler adran 7.6 o'r Penderfyniad |